

Y STAMP

RHIFYN 8 - HAF 2019



JENO DAVIES MORGAN POWELL MARED ROBERTS BEDWYR WILLIAMS
HANAN ISSA ELGAN RHYS LOWRI CÊT ALUN SAUNDERS



LLION GETHIN

Ystyriwch y fwltur Grug Muse

Testun y bregeth heddiw, gyfeillion, ydi'r Adolygiad. Mae'r cylchgrawn hwn — fel cylchgronau eraill o natur debyg — yn cynnwys adran adolygiadau, ac mi rydan ni o'r cychwyn wedi ceisio mynd ati mewn ffordd wahanol efo'r adran honno. Os caf i eich cyfeirio eto fyth at ein haddewidion cychwynnol, rhoddwyd yr addewid i:

[f]entro, gyda DEWRDER, i ddweud ein dweud ac ymwrthod â hunan-sensoriaeth a MYNNU GONESTRWYDD mewn byd lle mae dweud y gwir wedi dod yn weithred radical.

Aethpwyd ati i gyhoeddi adolygiadau yn lled-ddienw, mewn ymdrech i annog ein hadolygwyr i fentro mwy wrth adolygu, heb ddwyn pob atebolrwydd oddi arny nhw. Eisiau annog a meithrin diwylliant adolygu gonest, ond teg oedd ein hamcan. Swnio'n syml, ac eto fwy nag unwaith fe aeth hi'n drafod ac anghytuno ar be yn union yr oedd 'teg' a 'gonest' yn ei olygu. Be oedd yn feirniadaeth wedi ei chyfiawnhau, a be oedd yn mynd i dir 'jest-bod-yn-gas'? Be ydi cyfrifoldeb yr adolygydd i'r darlennydd, a'r awdur? Be ydi pwrpas adolygiad, hyd yn oed? Rhyw ymdrech i fynd i'r afael a'r cwestiynau hynny ydi'r llith hwn felly.

Y peth cyntaf i'w wneud cyn medru dweud sut mae adolygu yn dda yw diffinio be yn union ydi adolygiad, a be ydi ei bwrpas. Gellid tybio fod adolygu o ryw fath wedi cyd-fodoli gyda llenyddiaeth o'r dechrau'n deg. Siŵr braidd fod na rywun wedi achwyn fod y Gododdin yn 'hir-wyntog a gor-ddramatig' mewn ryw fersiwn canoloesol o Golwg, ac mae *Poetics* gan Aristotle yn un o'r testunau cynharaf sy'n beirniadu gweithiau eraill yn benodol. Ond mae'n siŵr i'r hyn a ystyriwn yn adolygiad llenyddol ddechrau datblygu go iawn yn ystod yr Oleuadaigaeth, y cyfnod hwnnw rhwng 1700 ac 1800. Dyma'r cyfnod pan ddaeth ffydd mewn rheswm i ddechrau diorseddu ffydd mewn Duw ar gyfandir Ewrop, a dechreuodd llythrennedd ledu tu hwnt i'r grwpiau breintiedig at boblogaeth ehangach. Datblygwyd ar rôl y beirniad llenyddol drwy'r symudiad rhamantaidd, gyda rhai llenorion yn dod

yn fwy adnabyddus am eu beirniadaeth nac am eu gwaith gwreiddiol eu hunain. Ond mae'n siŵr Yn yr zoed ganrif y datblygodd yr adolygiad fel ffurf yr ydym ni'n gyfarwydd ag o heddiw. Dyma ganrif y frwydr fawr rhwng beirniadaeth a theori — marwolaeth yr awdur, atgyfodiad yr awdur, croesholiad a diberfeddiad yr awdur; darllen agos, darllen pell, darllen groes i'r graen, ben i lawr a dros ben llestri. Oes y cylchgronau llenyddol — *Y Beirniad*, *Y Llenor*, *Yr Arloeswr a Taliesin*.

Chwaraeai adolygiadau rôl bwysig yn y diwydiant llyfrwerthu. Roedd cael adolygiad yn adrannau adolygu y papurau mawrion yn hollbwysig i werthiant llyfr, ac er fod adrannau adolygu y papurau dyddiol yn prysur ddiflannu, mae'r adolygiad yn parhau i fod yn ran bwysig o bob strategaeth farchnata gwerth ei halen. Ond yn wahanol i hysbyseb confensiynol y mae'r adolygiad yn bodoli fel cynnyrch creadigol annibynnol, ac mae posib i'r adolygydd raccio yn ogystal â chanmol y 'cynnyrch'.

Efallai fod y ffordd yr ydym ni'n ystyried beth ydi adolygiad yn dibynnu, yn ei hanfod, ar sut y gwelwn ni berthynas y darlennydd a'r awdur. O ystyried yr awdur fel yr awdurdod ar y gwaith — a'r darlennydd fel dim mwy na 'consumer' yn llyncu cynnyrch gorffenedig — yna'r math o adolygiad a geir yw crynhoad o blot neu gynnwys. Yn y crynhoad hwn maemynegiant syml o farn — hoffi/dim hoffi — ac mae digon o adolygiadau o'r math hyn yn bod, yn gynyddol felly yn oes yr 'Amazon Customer Review' bondigrybyll.

Yn ogystal â bod yn ffordd ddigon torcalonnus a di-ddychmygu o ystyried perthynas y darlennydd a'r awdur, mae hyn hefyd yn esgor ar adolygiad sydd yn ddiflas ar y diawl i'w ddarllen. A dyna faglu ar draws un o'm canllawiau personol i wrth adolygu — sef y dylsai adolygiad yn ei hun fod yn gynyrch creadigol a ellir ei fwynhau gan bobol heblaw am yr awdur a'r tîm marchnata.

Os awn ni ati i ail-ddychmygu'r berthynas rhwng y darlennydd a'r awdur, y tro hwn gan edrych arni hi fel perthynas gyd-weithredol, gyda'r darlennydd yn

chwarae rhan yr un mor bwysig a'r awdur yn y broses o 'greu' y llyfr. Hynny ydi i ni gyfri ymateb personol darlennydd yn elfen mor bwysig o stori ag ydi'r geiriau ar y papur. -Dyna ni'n rhoi sgôp i'n hadolygydd wneud rhywbeth diddorol. Rôl yr adolygydd wedyn yw cyfrannu at y broses o ddarllen y llyfr i ddarllenwyr eraill; cyfoethogi eu darlleniad trwy daflu goleuni ar elfennau diddorol; cynnig cydestun ehangach i'r testun; trafod elfennau o'r testun a berodd lawenydd, neu bryder; trafod cynnwys a gwerthfawrogi crefft (neu ddiffyg crefft) yr awdur.

Grêt, gwych. Wel, hyd yn hyn rydan ni wedi dychmygu adolygu fel rhywbeth sy'n digwydd mewn byd perffaith lle mae adolygwyr yn hael eu hamynedd, llyfrau yn ddiddorol ac awduron yn 'farw' (neu ddim yn darllen adolygiadau, beth bynnag). Y gwir amdani wrth gwrs ydi fod yna fynyddoedd o lyfrau sâl allan yna, a fod y rhelyw o awduron Cymraeg yn darllen pob gair sydd wedi ei sgwennu amdanyn nhw, yn cymryd pethau i galon, ac efo coeau fel eliffantod. Sut wedyn dan yr amodau hyn y mae mynd ati i adolygu mewn modd teg, ond gonest?

Mae nifer o awduron wedi sgwennu am anhegwch y byd adolygu; wedi cwyno mor ddbwynt yw adolygiadau ac wedi lladd ar adolygwyr a'u disgrifio fel fwlturiaid. Falle fod gwir yn hynny. Ond ga i ofyn i chi ystyried y *Gyps Bengalensis*?

Nôl yn yr wythdegau ar wastadeddau'r Ganges teyrnasai'r *Gyps*, neu'r fwltur cefnwyn, dros y coedydd Banyan ac Arjun. Bwydai'r *Gyps* ar garcasau anifeiliaid marw, gan eu pigo'n esgyrn gwynion. Ers y nawdegau fodd bynnag oherwydd y defnydd o diclofenac, cyffur a ddefnyddir ar wartheg (sydd yn wenwyn i'r adar sy'n bwydo ar eu cyrff) mae poblogaeth y *Gyps* wedi gostwng i 1% o'r hyn yr oedd yn y rhanbarth ugain mlynedd yn ôl. Sylwodd neb ar gyfraniad y *Gyps* nes ei fod wedi diflannu. Heb yr adar i'w pigo yn esgyrn gwynion, mae carcasau gwartheg ac anifeiliad eraill yn cael eu gadael i bydru lle maen nhw'n trigo, gan greu problemau mawrion i bobl leol wrth iddyn nhw chwilio am ffyrdd newydd i

waredu cyrff anifeiliaid. Mae i hyd yn oed fwltur ei lle yn yr ecosystem, felly. Nid mod i'n cymharu awduron Cymraeg i garcasau gwartheg pydredig. Dim o gwbwl.

Ond cyfrannu i'r ecosystem neu beidio, dydi pobol ddim am stopio hwsian fwleriaid o'u gerddi os ydyn nhw'n digwydd glanio ar bostyn ffens, a tydi o ddim yn datrys problem y llyfr crap na'r awdur croen-denau chwaith. Un ateb posib yw dweud na ddylid adolygu llyfrau crap— neu o leia, llyfrau nad ydi'r adolygydd yn eu hoffi. Wedi'r cyfan, tawelwch ydi'r adolygiad gwaetha. O leia efo adolygiad sâl, mae rhywun wedi trafferthu darllen y gwaith— oes 'na adolygiad mwy damniol na chael eich hanwybyddu? Ac wrth gwrs rhaid cofio mai chwaeth ydi sail pob adolygiad. Onid ydi awdur yn haeddu'r cyfle i gael ei adolygu gan rywun sydd efo siawns o fwynhau'r gwaith? Be ydi gwerth adolygiad o nofel arswyd gan rywun sy'n casáu nofelau arswyd cyn cychwyn? Be, mewn gwirionedd ydi pwrpas adolygiad damniol, heblaw am gywilyddio awdur yn gyhoeddus, a bwydo ego'r adolygydd?

Ac eto, os ydi llyfr yn cynnwys elfennau hiliol neu fysogenistaidd; os ydi agweddau'r awdur yn ddinistriol, a chymeriadau yn dibynnu ar ystrydebau negyddol a throffegau diog mae'n bwysig trafod hynny. Ac os ydi adolygydd yn gwneud dim byd ond canmol, onid ydi'r

ganmoliaeth honno yn troi yn ganmoliaeth wag adiystr?

Y mae gan John Updike ganllawiau i'r perwyl hwn ar gyfer adolygwyr. Mae'n gofyn i ni i ddechrau i feirniadu'r gwaith ar sail bwriad yr awdur, ac i beidio taflunio bwriadau gwahanol ar y gwaith— i ni feirniadu mul ar sail bod yn ful ac nid sebra. Yn ail, mae'n ein hannog i ddyfynnu'n helaeth o'r gwaith dan sylw, gan roi cyfle i ddarllenwydd yr adolygiad ddod i farn ei hun am y gwaith hefyd. Yn drydydd, i gefnogi unrhyw honiadau gyda dyfyniadau o'r testun sy'n cefnogi hynny. Yn bedwerydd, y dylid peidio crynhoi y plot ac yn sicr na ddylid bradychu'r diwedd glo.n bumed— ac efallai'n allweddol yn ein taith i chwilio am ffordd 'deg a gonest' o adolygu— yw y dylid cynnwys, ynghyd â phob beirniadaeth, esiampol o lwyddiant. Mi ddyfynnaf:

If the book is judged deficient, cite a successful example along the same lines, from the author's oeuvre or elsewhere. Try to understand the failure. Sure its his and not yourself?.

Y mae'r canllaw olaf yn gasgliad o is-ganllawiau; peidied ag adolygu llyfr y gwyddi y byddi yn ei gasáu; paid adolygu llyfr ffrind; paid cymryd arnat i warchod rhyw draddodiad neu safon; paid trio rhoi

awdur yn ei le; adolyga'r llyfr, nid yr awdur; bydd yn barod i ymroi i beth bynnag yw swyn y llyfr; gwell canmol a rhannu na beio a gwahardd:

The communion between reviewer and his public is based upon the presumption of certain possible joys in reading, and all our discriminations should curve toward that end'.

Ar ddiwedd y dydd does dim rheolau pendant, ac mae eithriad i bob egwyddor. Y mae adolygydd mewn perthynas dair-onglog gyda'i darllenwyr a'i hawdur. Mae angen iddi fagu ffydd ei ddarllenwyr yn ei didwylledd, gonestrwydd, a'i chwaeth; gan gadw mewn golwg ar yr un pryd fod yr awdur yn berson o gig a gwaed, sydd wedi tywallt oriau maith o'u bywyd i mewn i'r pentwr hwn o bapurau. Bydd ecosystem lenyddol hyfyw yn cynnwys diwylliant adolygu bywiog, sy'n trafod rhinweddau a ffaeledau llyfrau mewn ffordd ystyrllon, meddylgar, a chydymdeimladol. Ac mae angen i adolygydd gyfrannu i'r profiad darllen i eraill. Ei swydd yw cyfoethogi, cymhlethu, a chyd-destunoli. Yn fy marn i, beth bynnag.

Caerdydd, Mehefin 2019

ystamp.cymru // @ystampus // facebook.com/ystampus

golygyddion.ystamp@gmail.com

Hawlfraint © 2019 Y Stamp

Argraffwyd yn yr Undeb Ewropeaidd gan Y Lolfa

Golygyddion Grug Muse, Llŷr Titus, Esyllt Lewis a Iestyn Tyne

Celf y Clawr Jen Davies

Dylunydd Iestyn Tyne

Barn awduron unigol a gyhoeddir yn Y Stamp, ac nid o reidrwydd rhai'r cylchgrawn a'i fwrdd golygyddol. Gall cyfraniadau i'r cylchgrawn hwn gynnwys rhegfeydd, iaith gref a deunydd aeddfed ar brydiau.

DIOLCH

Hoffai'r stampwyr fynegi eu diolch i gynulleidfa wresog CellB, Blaenau Ffestiniog, lle lanswyd Rhifyn 7; i'r siopau llyfrau ledled Cymru sy'n cynnwys y cylchgrawn ar eu silffoedd; i CHI, ddarllenwyr annwyl; ac yn bennaf oll, i'r holl stampwyr disglair sy'n eich disgwyl rhwng y cloriau hyn.

MAE'R STAMP YN GYHOEDDIAD CWBL ANNIBYNNOL A REDIR YN WIRFODDOL.

Y STAMP

RHIFYN 8 | HAF 2019

CYNNWYS



BARDDONIAETH

| | |
|--|----------------|
| Hanan Issa a Matthew Tucker (<i>Snogio trwy Sanau</i>) | 7 |
| Morgan Rhys Powell | 18 |
| Matthew Tucker | <i>Atodiad</i> |
| Osian Owen | <i>Atodiad</i> |
| Judith Musker Turner | 22 |

RHYDDIAITH

| | |
|-----------------|----|
| Dr. Iona Gwilym | 14 |
| Mared Roberts | 29 |

SGRIPTIAU

| | |
|--|----|
| Lowri Côt (<i>Ymateb i Ddelwedd</i>) | 12 |
| Rhiannon Lloyd Williams | 34 |

CELF

| | |
|--|----|
| Jeno Davies | 1 |
| Bedwyr Williams | 17 |
| Seren Morgan Jones (<i>Poster</i>) | 20 |
| Judith Musker Turner | 22 |
| Lleucu Non (<i>Ailddychmygu'r Stamp</i>) | 25 |

FFOTOGRAFFIAETH

| | |
|--------------------|----|
| Llion Gethin | 2 |
| Morgan Rhys Powell | 18 |

YSGRIFAU

| | |
|---|----|
| Grug Muse (<i>Cartrefi Cymru 2.0</i>) | 8 |
| Alun Saunders | 27 |

ADOLYGIADAU*

| | |
|--|----|
| <i>Gadael Rhywbeth</i> - Iwan Huws | 7 |
| <i>Ar Ben y Lôn</i> - Idris Reynolds | 32 |
| <i>Perthyn</i> - Sian Northey | 32 |
| <i>Pedwaredd Rheol Anrhefn</i> - Daniel Davies | 33 |




MWY

| | |
|--|----|
| Elgan Rhys (<i>Manifesto</i>) | 30 |
| Jeno Davies (<i>Adnabod yr Artist</i>) | 36 |
| <i>Y Stampwyr</i> | 37 |

*Cyhoeddir pob adolygiad unigol o gynnyrch newydd Cymraeg neu Gymreig yn Y STAMP yn ddienw. Adolygwyr stampus Rhifyn 8 yw:

ELIS DAFYDD / MANON AWST

SARA LOUISE WHEELER / GARETH EVANS JONES



Dwy galon yw fy nghorff Hanan Issa / Matthew Tucker

Dyma gyflwyno eitem newydd sbon i dudalennau'r Stamp. Disgrifodd Menna Elfyn y profiad o ddarllen cerdd mewn cyfieithiad fel cael 'cusan trwy hances'. Wel, hoffem ni yn y Stamp weld cyfeillachu a swsio lot amlach yn digwydd rhwng 'dwy' lenyddiaeth Cymru, felly dyma herio llenorion Cymraeg eu hiaith i geisio mynd ati i gynhyrchu cyfieithiadau o waith llenorion Cymreig cyfoes sydd yn ysgrifennu yn y Saesneg. Y gobaith ydi archwilio y berthynas rhwng llenyddiaeth y ddwy iaith, tra yn arbrofi efo'r gelfyddyd o gyfieithu.

Cerdd o'r enw 'My Body Can House Two Hearts' gan y bardd Hanan Issa a osodwyd fel her y tro hwn. Fe fydd y gerdd i'w gweld yn y gyfrol o'r un enw sy'n cael ei chyhoeddi gan gyhoeddiadau Burning Eye Books yn mis Hydref eleni. Ond i ddechrau, dyma holi Hanan rhywfaint am y gerdd wreiddiol:

Beth ysbrydolodd y gerdd?

Datblygodd y gerdd hon o ddau syniad sydd yn bwysig iawn i mi: grym merched, a phwysigrwydd cyd-godi pobl eraill gyda ti. Mae'r syniad fod gan y corff benywaidd ddigon o nerth i gynnal ac elwa o rym 'dwy galon' yn dod o adnod yn y Coran. Ar yr un pryd, fel yr oeddwn i'n ail-ddarllen ysgrif Audre Lorde, 'The Master's Tools Will Never Dismantle the Master's House' cefais fy nharo gan gymaint oedd geiriau y ddynes hon, a ddisgrifiai ei hun fel 'bardd-filwr lesbiaidd, ddu o fam', yn ymdebygu i fy nehongliad i o'r adnod. Mae hi'n son am sut y mae gan ferched y gallu anhygoel 'ma i gynnwys gymaint o gariad. Mae hi'n angori'r cariad yma, sydd ddim yn gariad anhunanol nag yn hunan-aberthol, mewn strwythur o ryng-ddibyniaeth. Mae Audre Lorde yn annog ymwrthodiad ag ymddygiad hanfodol batriarchaidd, fel edrych ar 'wahaniaeth' fel rhywbeth i'w ofni, neu i gystadlu yn ei erbyn. Mae'r cysyniad o gael dwy ganol hefyd yn cyfeirio at sut mae person o gefndir cymysg yn aml â hunaniaeth neu deyrngarwch amrywiol, neu ranedig, sydd yn thema yn fy mhamffled.

Pwy yw dy ddylanwadau llenyddol?

Mae yna ormod! Dwi wedi son yn barod am Audre Lorde, ond rhaid i mi son hefyd am Toni Morrison. Os ydw i byth yn teimlo 'mod i'n mynd ar gyfeiliorn, mi fydda i yn troi at eu gwaith nhw am arweiniad. Mae barddoniaeth Zeina Hashem Beck a Terrance Hayes hefyd wastad naill ai ar fy nesg neu yn fy mag; hefyd, Carol Ann Duffy, Philip Larkin, Rhian Edwards, Rhian Elizabeth. Mi gefais i hefyd un o'r eiliadau 'sut mod i heb ddod o hyd i hwn yn gynt' yn ddiweddar efo gwaith Tarfia Faizullah! Rhaid son hefyd am fawrion fel Jane

Austen, Neil Gaiman, Chinua Achebe, Kazuo Ishiguro, Albert Camus, Angela Carter, Margaret Atwood, Malorie Blackman, ac yn fwy diweddar Nnedi Okorafor, Guy Gunaratne a Max Porter.

Roedd ti dy hun yn ymgymryd â rhyw fath o broses gyfieithu wrth ysgrifennu'r gerdd hon, sydd wedi ei hysbrydoli gan y gynghanedd - sut broses oedd hono?

Proses galed! Cefais gopi o gyfrol Mererid Hopwood, *Singing in Chains* gan fardd Cymraeg, ac fe ges i fy nghyfareddu'n syth! Dwi dal yn anghrediniol mod i wedi mynd trwy'r system addysg Gymreig (trwy gyfrwng y Saesneg ysywaeth) heb ddod ar draws y gynghanedd o gwbl. Mae o fel peidio cael clywed am y Mabinogi! Fel unrhyw lenor sy'n dod ar draws ffurf newydd roeddwn i yn ysu am gael rhoi tro arni. Roedd y pethau cyntaf ysgrifennais i yn ofnadwy. Mor wael, mae gen i gywliedd eu dangos i neb! Yna mi wnes i osod her i mi fy hyn i ysgrifennu cerdd deitl y gyfrol gan ddefnyddio rhywfaint o hanfodion y gynghanedd mewn darn nad oedd wedi ei ysgrifennu yn yr iaith yr oedd o wedi ei fwriadu i gael ei ddefnyddio, a gan gyfuno hynny â syniadau y soniais amdany'n nhw eisoes. Roedd yn teimlo'n bwysig i mi wneud hynny gan fy mod i'n hawlio elfennau o fy nwy hunaniaith yn y pamffled. Roedd englynion Saesneg Twm Morys ac Ifor ap Glyn yn ddefnyddiol iawn, yn ogystal ag ymarferion Mererid yn *Singing in Chains*. Ym amlwg, prentis ydw i, fel plentyn sydd wedi dysgu'r wyddor ac yn ceisio rhoi brawddegau at eu gilydd, ond dwi'n edrych ymlaen at arbrofi ymhellach. Dwi hefyd yn chwilfrydig i ddarganfod tybed a oes ynagerdd wedi bod erioed sy'n cynnwys y gynghanedd ac Arabeg?

Pwy fyddai'n ennill mewn ffeit, iambic pentameter neu'r gynghanedd groes o gyswllt?

Ha! Wel, dydw i ddim eisiau dod o hyd i ben ceffyl ar stepen fy nrws, felly rhaid i mi ddeud y gynghanedd! Tase nhw'n chware gêm o wyddbwyll, yn amlwg mi fyddai'r groes o gyswllt yn fwy deheuig, ond wedyn os mai bocsi fydden nhw, mae'n siwr mai iambic fyddai'n mynd â hi!

*

Matthew Tucker dderbyniodd yr her o gyfieithu'r gerdd. Dyma ddywedodd o am y profiad:

Fel un sydd wedi cael hwyl ar gyfieithu ar sawl achlysur yn y gorffennol, braf oedd derbyn yr her a osodwyd gan olygyddion *Y Stamp* i fynd ati i gyfieithu'r gerdd hon, ac yr oedd y broses yn un y gwnes i ei mwynhau'n fawr.

Dewisais ryddhau fy hun rhag dilyn y patrwm odlau a chytseiniaid, er mwyn rhoi'r pwyslais mwyaf ar drosglwyddo ystyr y gwreiddiol. Pwy a wŷr a yw hynny'n tynnu oddi wrth effaith y gerdd i rai, ond o'm rhan fy hun, teimlaf fy mod wedi gallu ymrwymo i'r dweud yn hytrach na'r odlau.

Nid cyfieithiad llythrennol mo hwn, ceisiais osgoi hynny ar bob cyfri gan geisio osod fy stamp (esgusodwch y chwarae ar eiriau hurt!) fy hun ar y gerdd. Cyfieithu'n gyfystyrol mewn modd creadigol yr oeddwn am ei wneud, ac mae thesawrws y tŷ wedi mwy na phrofi'i werth.

Rwy'n diolch yn fawr i'r golygyddion am ymddiried yr her i mi, a gobeithiaf y byddwch chi ddarllenwyr yn cael hwyl wrth ddarllen y cyfieithiad.

DWY GALON YW FY NGHORFF

'Dwy galon' yw'r 'qalbayn'* inni
Dau ddarn yn hwylio'r môr rhuddgoch.
Wedi fy nghlymu wrth diroedd a wahanwyd gynt,
rwyf wedi ceisio ymdoddi'n drwsogl.

Mae fy ngwaed yn ffrwydrad ynof.
Yn fy nghystuddio, yn fy nadwneud, yn fy llesteirio,
os syrthio rhwng dwy stôl a wnafl,
fe godwyd y muriau ers cryn amser.

Ond fy nghorff sy'n ddigon,
yn wytnwch tawel, yn boen sy'n ymchwyddo.
Tyf fy nghalon yn goflaid ynof,
gan wrthod cuddio'n y cysgodion,

pa eisiau chwalu'm cymheiriaid
neu adael i'm hofnau ddianc ar ras?
Fy nghorff sy'n cynnal fy nwy galon,
ac rwy'n naddu fy etifeddiaeth;


rwy'n creu lle sy'n wagle i bawb,
safaf yn dal, codaf, anadlaf yn rhydd.
Dwy galon yn gryfder na ellir mo'i dwyn,
a chariad yn ffrwd nad yw'n dyfrhau'r byd.

HANAN ISSA

*dwy galon yw ystyr qalbayn

ADOLYGIAD – BARDDONIAETH

Gadael Rhywbeth Iwan Huws



Dwi wastad yn cael gwefr wrth ddal cyfrol newydd o farddoniaeth yn fy llaw. Am wythnosau wedyn bydd hi efo fi yn fy mag lle bynnag dwi'n mynd, er mwyn cael ei darllen yn y munudau sbâr rhwng

un peth a'r llall. Wrth fy modd oeddwn i felly i gael gadael ar gyfrol newydd Iwan Huws, *Gadael Rhywbeth*, gan Gyhoeddiadau Barddas. Chefais i ddim fy siomi achos mae hi'n gyfrol hyfryd, ddeniadol, gyda dimensiwn pellach iddi gan fod llawer o'r cerddi yn gyfarwydd i ni fel lyrics caneuon Iwan Huws a Cowbois Rhos Botwnnog. Mae'n anodd darllen cerddi fel 'Dyddiau du, dyddiau gwyn' a 'Pan fyddan ni'n symud' heb fynd

i ddechrau canu. Ond wedi dweud hynny, mae'n brofiad go wahanol i gael astudio'r geiriau ar bapur, a'u dadansoddi fel rhan o gasgliad o gerddi.

Pan fydda ni'n symud,
'dan ni'm yn symud ar wahân
ond yn sathru ffiniau'n gilydd
wrth i ni fynd o dân i dân

Mae ffiniau yn thema sy'n dod i'r amlwg drwy'r gyfrol - ffiniau rhwng pobl, ffiniau mewn gofod ac amser, a'r ffin rhwng realiti a'r dychymyg, rhwng bywyd dydd-i-ddydd ac atgofion. Fel ym melodïau ddiffuant y caneuon, mae 'na dynnerwch ac emosiwn dwfn ym marddoniaeth Iwan Huws, sy'n medru tanio hiraeth a sylwed-doliad yn y darllenydd. Pynciau cyffredin a chyfarwydd yw sail y cerddi - cariad, cynefin, y tymhorau, teithio, bywyd domestig, magu - ond mae'r trosiadau a'r cymariaethau pwerus weithiau'n gwyrddroi profiadau dyddiol, yn rhoi chwyddwydr emosiynol arnynt, fel eu bod yn dod yn bethau dychrynlyd o fre-gus, neu greulon o hardd.

Yn y cerddi, mae'n 'mynd â'r tir am dro', yn 'plygu'r ardd i mewn i'r bin', yn 'clymu rhuban ar y gwynt', 'a chodi'r llawr

yn flodau mân'. Fel mae teitl y gyfrol yn datgan, mae'r bardd yn brwydro i adael rhywbeth ar ôl, i ddal atgofion profiadau bywyd fel concrit mewn amser cyn id-dynt ddiffannu i ebargofiant. Ond mae hefyd yn ein hatgoffa fod peryg i ni sbw-ylio pethau wrth wirioni ar harddwch bywyd a mentro ei ddehongli. Caiff hyn ei grisialu yn y gerdd 'Halltu'r dydd':

Roedd heddiw'n ddiwrnod mor braf,
be am ei ladd o
a'i rowlio mewn halen?

Rhaid gwneud yn syth,
neith o bara am byth wedyn,
ei halltu a'i sychu,
ei grogi o do'r gegin.

Fel albwm o ganeuon Iwan Huws, mae'r gyfrol hon yn llwyddo i dynnu ar dannau'r emosiynau ac yn creu naws dejavú-aidd hyfryd sy'n cyffroi'r synhwyrau.

Barddas - £5.95

Canolfannau Siopa Caerdydd Grug Muse

Mae'n fore dydd Mawrth ac mae canolfan siopa y Capitol yn dawel. Mae rhywfaint o fynd a dod ym mhen gorllewinol y ganolfan, lle mae'r Tesco, Nata & co, y Pret a'r Falafel Corner yn cynnal rhywfaint o fasnach. Yn ddyfnach i grombil yr adeilad glas-wydrwg, mae'n tawelu. Y bylchau rhwng yr unedau anheddog yn lledu fesul un. Does dim llinellau syth yma. Mae'r prif gyntedd yn nadreddu tua'r dwyrain, rhodfa ar yr ail lawr wedi ei oleuo yn las, a goleuadau stribedog o'r un glas dyfrllyd yn rhoi naws tanddaearol i'r lle. Ymhen 'chydig o lathenni mae'r cyntedd yn lledu yn gylch eang, a bwtresi a thrawstiau cromennog yn codi yn fasilica gwydrwg o grôm a phlaster gwyn tua'r nen. Fel eglwys, mae'r tawelwch yn esmwythâu, ac wrth i'r haul ymddangos o du ôl i'r cymylau, llenwir y siambr eang gyda llafnau o olau cynnes.

Agorwyd y Capitol yn 1990, blwyddyn ailuno gorllewin a dwyrain yr Almaen, a Chwpan y Byd yr Eidal. Dyma ganolfan siopa i'r Gaerdydd newydd, efo digon o le parcio i 420 o geir, ac yn llawn siopau mawr fel H&M, MAC a Jaeger. Ceisiodd y penseiri efelychu arddull rhodfeydd hanesyddol y ddinas yn eu cynllun, ond dyddiodd yr adeilad yn gyflym, ac erbyn 1999 roedd y ganolfan yn cael ei hail-ddatblygu ar gost o £10 miliwn i'r hyn sydd i'w weld yno heddiw.

Daw enw canolfan siopa'r Capitol o'r sinema o'r un enw a arferai sefyll ar y safle. Yn dal 3,158 o bobl, roedd hi'r sinema fwyaf yn Ewrop pan adeiladwyd hi yn 1921, yr un flwyddyn yr agorwyd un o rodfeydd siopa ola'r ddinas, y Dominions Arcade ar Heol y Frenhines. Yn ogystal â seddi i 3,158, roedd yn cynnwys neuadd ddawns, tri bwyty, neuadd wledda a neuadd gemau. Mewn hen lun du a gwyn, gellir gweld fod pedwar llawr i'r adeilad. Uwchben y drysau roedd arwyddion golau yn cynnwys enwau y sioeau a'r sêr diweddera mewn llythrennau breision. Rhwng yr ail a'r trydydd llawr roedd y llythrennau CAPITOL wedi eu hysgrifennu mewn sgwennu sownd, a hwnnw wedi ei oleuo mewn neon llachar. Ymysg y sêr fu'n perfformio yno roedd Tom Jones, y Beatles, Elton John, Rod Stewart a Bob Dylan. Un o'r sêr olaf i berfformio yno oedd Queen yn y 70au.

Erbyn y dyddiau hynny, doedd y sinema'n dangos fawr ddim heblaw ffilmiau pornograffig. Caeodd y Capitol ei drysau am y tro ola yn 1978, ac yn 1983, dymchwelwyd yr adeilad.

//

Hawdd anghofio, wrth gerdded i lawr Heol y Frenhines, mai dinas borthladdol ydi Caerdydd. Tra bod dinasoedd cyfagos fel Bryste yn arddel eu hanes morwrol yn amlwg, mae Caerdydd wedi mynd ati'n benderfynol-styfnig i wthio pob ôl o'r gwythiennau hallt hynny oddi ar ei strydoedd, ac i wthio'r bobol a adeiladodd y ddinas i'w chyrion hefyd.

Yn 1828, roedd dŵr yn llifo trwy ganol y ddinas. Ystumiai'r afon Taf wrth ymyl y castell, gan lifo'n gyfochrog â Heol Santes Fair, trwy lle mae Stadiwm y Mileniwm a'r orsaf drenau yn sefyll heddiw. Rhedai camlesi ar ffiniau muriau'r dref, gan groesi lle mae Heol y Frenhines heddiw. Erbyn y 30au roedd ail Farcwis Biwt wedi dechrau adeiladu dociau'r ddinas, wrth i'r aur du a'r haearn lifo i'r porthladd o gymoedd Rhondda, Rhymni a Chynon. Adeiladwyd rheilffyrdd yn y pedwardegau i gludo dur, er mwyn ei allforio i gyflenwi rheilffyrdd Rwsia, America a'r Almaen hefo trawstiau. Roedd y dociau yn cyrraedd godrau Heol Santes Fair, ac roedd strydoedd fel Mill Street, Duke Street, a Womanby Street yn berwi efo ffowndris, haearnwerthwyr, lladd-dai, a stordai.

Erbyn ail hanner y ganrif, roedd golud wedi dod i ganlyn y gerwin diwydiannol, ac roedd y dosbarth canol yn dechrau chwilio am amgenach llefydd i dreulio'u hamser na strydoedd budron y dref. Ym mis Ionawr 1870, wedi degawd o gynllunio, agorwyd y Royal Arcade, cyfraniad Meseri James a Price i ddatblygiad eu dinas annwyl. Yr oedd yr Arcade, neu'r Rodfa Siopa eisoes yn dechrau dod yn boblogaidd ar y cyfandir. Yr oedd galeriau siopa dan do fel y *Passage du Claire* a'r *Passage des Panoramas* eisoes wedi eu hadeiladu ym Mharis ers 1786; agorwyd y *Burlington Arcade* yn Llundain yn 1819, er mwyn i larll Burlington gael siopa am bethau drud ymhell oddi wrth fudreddi ac anrhefn y strydoedd cyhoeddus. Ac yn 1877 agorwyd y *Galleria Vittorio Emanuele*

// yn Ninas Milan, galeri siopa dan do enfawr i gysylltu'r *Duomo* a'r *Teatro Alla Scala*.

Agorwyd y Rodfa Frenhinol yng Nghaerdydd ar Ionawr yr 17eg, 1870— a hynny gyda llaweroedd o fynting— yn ôl adroddiad y *Western Mail*. Yr oedd wedi cymryd 10 mlynedd i gwblhau'r prosiect, ac roedd y dramwyfa rhwng yr Aes a Heol Santes Fair yn mesur 440 troedfedd o hyd, 12 o led a 26 o uchder. Gyda'r ffenestri uchel yn gadael i olau dydd lifo dros ei cherrig palmant, bwriedid llenwi y lloriau isaf gyda siopau a defnyddio ystafelloedd yr ail lawr at les y cyhoedd, gyda gwersi gwyddoniaeth a chelf yn cael eu cynnal yno. Mr Peter Price oedd y pensaer, a Mr S Shepton wnaeth y gwaith adeiladu. Yn ôl disgrifiad y *Western Mail* y diwrnod canlynol:

The design has been carried out in a very artistic manner, and the glass roof of the Arcade, together with the general artistic effect, is such as to give the whole construction a most tasteful appearance.

O safbwynt economaidd, roedd y prosiect yn llwyddiant ysgubol, gan wneud elw mawr i'r cyfranddalwyr. Dilynwyd y Royal gan lu o rai tebyg— y Dickens, Oxford, Dominions, Duke St, High St, y Morgan a'r Wyndham. Ar y 3ydd o Dachwedd, 1886, wrth dathlu cyhoeddi Rhodfa ddiweddera'r ddinas, datganodd y *South Wales Daily News* y canlynol gyda llawenydd:

In the course of a few months there will not be a town in the United Kingdom which will be able to compare with Cardiff in the number or excellence of its arcades, that peculiar class of business centres which has found such favour locally. In addition to the three handsome arcades already opened in the middle of the town, and a fourth in progress, yet another will shortly be inaugurated under the name of the Castle Arcade.

//



Daeth y chwyldro diwydiannol âffordd newydd o ddeall gofod, a gofod cyhoeddus. Gyda'r boblogaeth yn prysur symud o ardaloedd gwledig i ardaloedd diwydiannol daeth canran uwch ac uwch o'r boblogaeth i fyw mewn gofod cynyddol llai. Golygai hyn fod cymdeithasu yn digwydd mewn gofodau cyhoeddus, llefydd penodol oedd wedi eu dynodi yn fanau agored i'r cyhoedd: llyfrgelloedd, neuaddau adloniant, amgueddfeydd, siopau, a'r stryd.

Yn wahanol i'r stryd, yr oedd y Rhodfeydd yn parhau i fod yn dir preifat. Codai hyn gwestiynau ar gyfer darllenwyr papurau newydd Caerdydd trwy gydol ail hanner y ganrif. Roedd disgwyliad fod y Rhodfa yn wahanol i'r stryd ac mai dosbarth dethol a fyddai â'r hawl i droedio'r rhodfeydd moethus. Siomwyd sawl un gan fethiant y Rhodfeydd i blismona ei rhodwyr.

Llai na mis wedi i'r Rhodfa Frenhinol agor ei drysau am y tro cyntaf, anfonodd Spero Meliora ('I aspire for better things', motto Lladin Clan Albanaid y Moffats) at y Western Mail i gwyno:

Sir,-- I have not been in the Royal Arcade since the opening day until this evening, and I can

assure you I was quite surprised and disappointed to see the class of persons who frequent it. I really consider it a pity that such and improvement to our town should be spoilt and disgraced at the very outset by a rabble much as I saw to-night. There seems to be no order whatever. Children and roughs are allowed to perambulate at will.

Mae'n holi pam na ellir cyflogi person neu bersonau i gadw trefn o fewn y rodfa. Naw mlynedd yn ddiweddarach, ac mae'n ymddangos nad ydi pethau wedi gwella rhyw lawer i fwrgais truenus y ddinas. Yn 1879, mae 'Ratepayer' yn gyrru at y *South Wales Daily News* i gwyno am ymddygiad yn y Royal Arcade. Y mae wedi troi, yn ôl R., yn:

play- ground for children, skating, sliding, members of the shoeblack brigade, bad characters with baskets on the arms and heads to hide their foul deeds, groups of men leaning against the shop windows and as for the evening, from seven o'clock to nine, you don't want to inquire where is Bedlam, but just take a walk and

see prostitutes promenading up and down at least 20 times a night.

Bwrddwn ei gŵyn yw nad oes yno blismyn i'w canfod, ac nad yw'r Arcade Company, sef perchnogion y tir, yn fodlon cymryd cyfrifoldeb am y mater.

//

Un o olygfeydd eiconig (niferus) y ffilm *Mean Girls* ydi golygfa'r ganolfan siopa. Mae Cady Heron, y ferch ddiniwed sy'n cael ei hun yng nghanol byd clici ysgol uwchradd Americanaidd, yn dychmygu ei chyfoedion fel anifeiliaid gwyllt wrth eu gwyllo yn cymdeithasu yn y 'mall'. Mae lle y 'mall' fel man cymdeithasu i bobl ifanc, ac i ferched yn benodol, wedi ei serio yn y dychmyg poblogaidd ac wedi ei sementio gan ffilmiau a rhaglenni teledu lle mae'r cymeriadau ifanc yn defnyddio'r mall fel cefnlen i holl ddramâu eu bywydau. A hwythau'n rhy ifanc i fynd i'r dafarn, mae'r mall yn cynnig gofod cyhoeddus i ymgynnull sy'n eu gwarchod rhag yr elfennau, ac yn darparu adloniant parod ar ffurf siopau a llefydd bwyta. I ferched yn benodol, mae siopa wedi dod yn ystrydeb o weithgaredd gymdeithasol, sy'n ran o

ystrydeb ehangach y 'ferch faterol', merch arwynebol a fflistaidd ei diddordebau. Yn aml caiff ystrydeb y ferch faterol ei chyfuno â ystrydeb y 'Bitsh', fel yn y ffilm *Mean Girls*. Mae hi i'w gweld yn ei sgert fer yn swingio bagiau siopa trymlwythog gyda amnaid camp o'i llaw, neu'n chwythu swigod bubblegum ac yn syllu'n benchwiban ar y jóc golygus yn ei siaced letterman.

Nid cyd-ddigwyddiad yw hi bod y ganolfan siopa neu'r mall yn cael ei ystyried yn gynefin naturiol i'r ferch yn ei glasoed. O'u dechreuad, cynigai mannau siopa dan do noddfa i ferched rhag yr elfennau, ond yn bwysicach fyth, rhag rhagfarnau cymdeithas. Yn ei chyfrol *Wanderlust* (2001) wrth drafod pwysigrwydd mannau cyhoeddus, a'r rhyddid i'w crwydro, mae Rebecca Solnit yn trafod y cyfyngiadau ar ferched sydd wedi bod eisiau cyfranogi o fywyd cymdeithasol y stryd:

Nineteenth-century women were often portrayed as too frail and pure for the mire of urban life and compromised for being out at all if they didn't have a specific purpose. Thus women legitimized their presence by shopping – proving they were not for purchase for purchasing – and stores have long provided safe semi-public havens in which to roam. (t.237)

Datblygodd y Rhodfeydd siopa cyntaf mewn cyfnod lle roedd merched a grwydrai strydoedd heb bwrpas penodol mewn perygl gwirioneddol o gael eu cyhuddo o buteindra, neu eu harestio dan ddeddfau atal ymlediad clefydau gwenerol a'u gorfodi i brofi eu 'purdeb' gyda phroffion meddygol erchyll. Roedd siopa yn un o'r ychydig gyfleoedd a gâi merched dinesig i grwydro'n rhydd mewn mannau cyhoeddus.

Ond unwaith i'r siopau gau, roedd y cyfiawnhad hwnnw dros droedio'r stryd yn diflannu. Mewn llythyr o Fehefin 1871, mae Ephesus yn cwyno fod y Royal Arcade wedi goddiweddyd Whitmore Lane fel stryd fwyaf amharchus Caerdydd, a hynny oherwydd presenoldeb y merched ifanc yn benodol:

At the entrance proper of the Arcade were standing a number of girls and boys laughing and pulling each other about. I noticed that the majority of the females had their prayer-books, etc., with them. [...] The baneful influence of such proceedings contaminate the

morals of all, and when the young "ladies" in question arrive at a certain age, who can predict what they then may become, through this their early education? It is a disgrace to the town, and if the young "ladies" have not an innate sense of modesty (as evident), their parents should endeavour to restrain them from loitering in this the Royal Arcade of "gentle lovers," to the hindrance of passengers and annoyance of residents. [...] Permit me to inform the young ladies herein alluded to, that modesty consists in purity of sentiment and manners, inclining us to abhor the least appearance of indecency, and to fear doing anything which will greatly incur censure. An excess of modesty is called "bashfulness," but a want of it, impertinence or impudence"

Y mae presenoldeb y merched hyn ar y stryd yn peryglu'r gymdeithas gyfan, yn ogystal â pheryglu eu statws a'u parchusrwydd nhw fel unigolion. Mae merched wedi tyrru i ganolfannau siopa am eu bod yn cynnig rhyddid gweddus a diogelwch amodol, gan ddatblygu yn is-ddiwylliant, ac yna'n ystrydeb o fenyweidd-dra.

Yn yr 21g mae canolfannau siopa yn parhau i gynnig gofod lled-ddiogel i fenywod ymgynnull. Yn gynnes, wedi eu goleuo, ac yn llawn swyddogion diogelwch, mae'n nhw'n cynnig delwedd o gyrchdan saff i ferched hen ac ifanc. Erbyn hyn, nid cael ei chyhuddo o buteindra yw prif bryder y ferch sydd â'i bryd a chyfranogi o ryddid gofod cyhoeddus. Ond mae ei hawl i bresenoli ei hyn yno yn parhau i gael ei gwestiynu, a phan fo merch yn dioddef trais mewn gofod cyhoeddus, mae'n gorfod ateb cwestiynau sy'n tansilio ei hawl i fod yn y gofod hwnnw:

'Be oedd hi'n gneud yn cerdded adre ar ei phen ei hun?'

'I be oedd eisiau iddi hi fod allan ar ôl iddi dywyllu?'

'Be oedd hi'n ei wisgo?'

//

Fe welodd yr ugeinfed ganrif, a'r twf mewn cyfraddau perchnogaeth ceir, weddnewid dulliau siopa. Tra bod y stryd fawr â'i siopau bychan yn dal i rygnu ymlaen, daeth niferoedd y llefydd parcio yn ffactor fwyfwy pwysig wrth ddylunio

canol trefi. Nid oedd siopwyr angen eu gwarchod rhag budreddi'r stryd bellach, am fod gan bawb eu cerbydau bach clyd i'w gwarchod rhag yr elfennau wrth iddyn nhw deithio o siop i siop. Daeth yn haws parcio tu allan i'r dref na straffaglu i ddod o hyd i barcio yn strydoedd culion y canol, a daeth canolfannau ar gyrion trefi, neu ganolfannau gyda'u gofodau parcio eu hunain yn rhan bwysicach o arferion siopa. Aeth rhodfeydd Caerdydd allan o ffasiwn, symudodd llawer o'r siopau mawrion i safleoedd ar heol y Frenhines, gan adael y Santes Fair i ddirywio.

Parhaodd y weithred o grwydro o siop i siop yn weithgaredd gymdeithasol pwysig fodd bynnag, gyda canolfannau siopa yn troi yn ganolfannau adloniant, a bwytai, caffis a sinemâu yn ymuno i gyfrannu at y profiad.

Yn 2007, am y tro cyntaf ers hanner canrif, aeth blwyddyn heibio heb i'r un Mall newydd gael ei hagor yn yr Unol Dalaethiau.

Ac o gerdded trwy ganolfan y Capitol heddiw, gellir cyfri bron cymaint o unedau gweigion ac o rai sydd wedi eu llenwi. Collodd ei phrif siopau i ganolfannau newydd Heol y Frenhines a Chanolfan Dewi Sant. Symudodd y prif ardal siopa yn ôl i gyfeiriad yr Aes a'r Santes Fair, a'r hen Rodfeydd. Daeth newid i'r Capitol. Erbyn hyn, trwyd seler eang y ganolfan yn ofod ymchwil a datblygu Celf. Mae'r seler fawr frwtalaidd wedi bod yn gartref i weithdai, arddangosfeydd a sioeau celfyddydol dros y misoedd dwytha, wrth i SHIFT ddod â phob math o wahanol artistiaid i arbrofi yn y dwensiwn congrid. I fyny'r grisiau mae dwyo'r siopau wedi eu meddiannu gan grwpiau celf RUG a SU11, sy'n cynnal sioeau a digwyddiadau celf yno'n rheolaidd. Mae'r siopau fu'n gwerthu ffasiwn sydyn, rŵan yn gartref i siop vintage a siop sy'n gwerthu crefftiau lleol. Mae nifer o'r unedau yn parhau yn wag. Mae teimlad rhyfedd i'r lle. Ac mae'r rhod yn troi. Pwy a wŷr na'r dymchwelir y Capitol hithau yn ei thro. Ac wrth i'r argyfwng amgylcheddol gynyddu, a chyfalafiaeth fateryddol, prynwriaethol dagu ei therfyniad silicotig, pwy a wŷr beth a ddaw i lenwi'r gwagle.



LLYFRYDDIAETH

Rees, William. 1962. *Cardiff, a history of the city*. Caerdydd: Cyngor Dinas Caerdydd.

Solnit, Rebecca. 2001. *Wanderlust*. Efrog Newydd: Penguin.

Papurau newydd arlein- Llyfrgell Genedlaethol Cymru [Ar gael ar: <https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/home>]

Y Galw Lowri Cêt

Y tro hwn, Lowri Cêt sy'n ymgymryd â'r her o ymateb yn greadigol i ddelwedd gan artist. Gallwch weld ffotograff Llion Gethin mewn lliw llawn ar dud. 2

Diwrnod chwilboeth o haf mewn parc prysur. Yno mae teuluoedd, grwpiau o ffrindiau ac unigolion wedi gwisgo'n hafaidd. I'r blaen, daw dau ffrind, MOC a CEL, y ddau yn 20 mlwydd oed. Maent yn edrych ar rhywbeth ar ffôn symudol Cel.

CEL Am olwg.

MOC Dio'm mor ddrwg a hynny..

CEL yn rowlio'i llygaid tuag at MOC. Mae o'n dal ei llygaid hi. Nôl at y ffôn.

CEL Ooo 'sbia.

MOC Be' di o?

CEL Crwban bach.

MOC Paid â dangos petha' fel 'na i fi. Dwi'm isio gweld.

CEL Ma'n digwydd ddo, tydi Moc.

MOC Dwi'n gwbod. 'Sa ddim rhaid plasterio pob man efo llunia anifeiliad bach yn mygu ddo, nagoes?

CEL Wel, dyna sut ma nhw'n cal y neges allan de-

MOC Message received. Dwi'm yn iwsio strôs dim mwy. Dim rhai plastig eniwe.

Mae teulu bach hefyd yn dod i flaen y llwyfan, TAD, MERCH (tua 10 oed) a NOA (3 oed). Mae'r ferch yn llyfu hufen iâ. Mae'r TAD yn agor loli iâ, yn taflu'r paced ar lawr a'i roi i NOA. Mae NOA yn gwrthod y loli iâ ac yn mynd i godi y paced oddi ar y llawr. Mae'r TAD yn taro'r paced o law NOA.

TAD Ych, paid â cyffwrdd hwna.

NOA (Yn griddfan, ceisio codi'r paced eto.)

TAD A-a! Be' ddudis i, Noa?

NOA (Ceisio codi'r paced eto.)

TAD (Yn sefyll ar y paced, son am y loli iâ) Wyt ti isio hwn neu beidio? 'Nes di swnian ddigon amdano fo!

Mae NOA yn mynd i sterics ar lawr. TAD yn rhoi y loli iâ i'w ferch.

TAD Hwda.

Wrth i'r TAD fynd i godi NOA oddi ar y llawr, mae NOA yn stopio'i dantrym. Mae NOA yn hollol dawel a llonydd. Mae'r TAD yn ceisio'i godi, ond mae o'n drwm fel lwmp o blwm.

Mae MOC a CEL yn gwylio yn ddryslyd. TAD yn stryglgio i godi ei fab, ond tydi o ddim yn symud o'r llawr.

MOC Fysa chi'n licio hand, syr?

Mae'r TAD yn troi yn gas tuag at MOC ond wrth iddo wneud hyn, mae'r FERCH yn gollwng ei hufen iâ a'r loli iâ. Mae'r TAD yn troi ati. Yn dawel a phwyllog, mae hi'n gorwedd ar lawr, yn syllu am yr awyr yn union fel NOA.

Fesul un, mae pob plentyn yn y parc yn gorwedd ar y llawr a syllu am yr awyr. Mae MOC, CEL, y TAD, a phob oedolyn arall yn y parc yn codi ar ei traed ac yn edrych o'i cwmpas yn ddryslyd.

CEL Be' sy'n mynd 'mlaen?

MOC 'Wmbo.

Daw llaw NOA i fyny yn araf, yn pwyntio am yr awyr. Mae'r TAD yn plygu lawr at ei fab.

TAD Noa? Noa? Noa, babi dad.

Daw llaw pob plentyn arall i fyny a phwyntio am yr awyr. Mae'r TAD yn symud at ei ferch, yn ceisio'i deffro o'r hypnotiaeth. Mae MOC a CEL yn closio heb feddwl. Daw panig a dryswch dros pob oedolyn. Mae'r golau yn troi'n biws tywyll.

Y PLANT Edrychwch.

Mae'r oedolion yn rhewi mewn ofn.

Y PLANT: (ynghyd a llais twfn, estron) Edrychwch.

CEL (sibrwd) Moc?

MOC (sibrwd) Be?

CEL Dw i isio mynd adra.

Y PLANT A'R LLAIS

Edrychwch ar y byd. Gwrandewch. Gwrandewch. Gwrandewch ar y byd.

Mae'r plant yn gollwng ei dwylo yn araf a

chau eu llygaid.

Y LLAIS Bobl y byd.

MOC (sibrwd) Cel?

CEL (sibrwd) Be?

MOC Dw i 'di pi-pi.

Y LLAIS Ts-ts-ts-ts. Am olwg. Golwg, golwg, golwg. Tydach chi ddim yn drýst.

TAD Be' yda chi 'di neud i mhlant i?!
Dw i isio nhw nôl!

Y LLAIS Be' DW I 'di neud i'ch plant chi?
Be' 'da chi 'di neud i'ch plant chi?

TAD Dim fi nath hyn!

Y LLAIS O ia, naci, fi nath **hyn**, no doubt.
Mond isio'ch sylw chi oeddwn i.

Oedolion i gyd yn cwyno a phrotestio.

Y PLANT A'R LLAIS
Gwrandewch.

Pawb yn tawelu.

Y LLAIS Tydach chi wedi neud smonach o'r byd 'ma. Y môr, y tir, yr atmosffer. Does yna le'm byd yn ddiogel rhag y'ch crafanga' chi. Dim planhigyn na chreadur. Dim plentyn. Dim dyfodol. Ac er mwyn be'?

Saib.

Y LLAIS Er mwyn dreifio hanner milltir lawr lôn i'r ysgol neu'r siop i sbario'ch traed? Er mwyn mwyngloddio coral byw i neud sment a brics, er bod na fwy o ronnyna' o dywod na sydd yna o sêr yn y nen? Er mwyn chwistrellu plaladdwyr dros y cnyda' i gael y daten neu'r tomato perffaith, er ein bod ni 'di goroesi milenia hebddyn nhw? Er mwyn lapio afalau, orenau a bananas mewn bagia' plastig, er bod ganddyn nhw eu deunydd pacio naturiol eu hunain? Er mwyn cael top does neb wedi'ch gweld chi'n gwisgo ar noson allan or blaen, dim ond i'w daflu i gefn y cwpwrdd y bora wedyn, byth i'w wisgo eto? Er mwyn hedfan yn gyflymach a chyflymach i wlad ym mhen draw'r byd heb stopio, er y bydd Awstralia dal yna 'fory? Mae hi'n 'fory yn fannu yn barod.

Saib.

Y LLAIS Ond efallai un diwrnod ... fydd yna ddim fory. Os 'da chi' meddwl bod

hi'n boeth heddiw, disgwylwch chi. Haul a storom, a haul a storom, a chorwynt a chenllysg fel peli tenis fydd hanes y blaned yma, a glaw fel cannydd yn disgyn o'r ffurfafen.

Saib.

Y LLAIS Fydd rhaid i mi fynd a'r plant.

MOC Fedrwch chi ddim neud hynny!

Y LLAIS Mi fedra i neud beth bynnag fynna i, ngwas i.

MOC Trwsiwch y blaned ta! Os ydach chi mor high and mighty, gwnewch o, helpwch ni!

Y LLAIS Dim ond chi allith 'neud hynny.

CEL 'Da ni'n g'neud ein gora glas!

Y LLAIS O, ydach chi rwan?

Mae'r TAD yn gwyro i godi'r paced loli iâ oddi ar y llawr.

Y LLAIS Prin fydd dyfodol rhain a'u plant nhw, beryg. Peidiwch a dod i grio ata i pan eith hi'n rhemp.

Gydag un daran fawr, mae'r golau yn snapio yn ôl i'r arferol, a'r plant yn deffro.

- DIWEDD -



Bob dydd fwy neu lai, mi ddaw rhywun i ngweld i a chyn i'w tinau nhw gyffwrdd y gadair mi fyddan nhw wedi datgan 'Dwi'n casau deintyddion'. Alla i ddim meddwl am unrhyw broffesiwn arall lle mae'r gweithwyr yn derbyn y fath ymosodiad personol mor rheolaidd. Dychmygwch rywun yn mynd i siop gornel ag yn deud "Dwi'n casau pobl sy'n cadw siop. Gymra i'r papur ma a gai lucky dip plis."

Ella fod yr heddlu'n diodda', ond dydy pobl ddim yn tueddu i fynd atyn nhw'n wirfoddol a thalu am y fraint.

Mi fydda i weithia'n cywiro pobl – "Dach chi'n casau dod AT y deintydd, dach chi rioed di 'nghyfarfod i o'r blaen, be am i ni ddod i nabod ein gilydd chydig bach gynta?' ag yn trio'u darbwyllo – 'isho cal chi ALLAN o boen a'i nadu fo rhag digwydd yn y dyfodol ydw i, nid ACHOSI poen ...'

Ma gen i ffrind sy'n ymateb yn reit ddi-flewyn ar dafod efo 'Dwi'n casau cleifion'.

Weithia nai chwerthin, weithia nai holi 'pam, be ddigwyddodd?' a mynd drwy ryw *spiel* am sut ma' pethau wedi newid ers y dyddiau lle roedd deintydd = bwtshar. Ond y gwirionedd trist ydy nad oes gen i'r amser i fynd i wraidd problemau dwys pobl, sbio ar eu cegau nhw, egluro be sy'n matar, cytuno ar y driniaeth sydd ei angen a sgwennu nodiadau am yr apwyntiad i gyd mewn 10 munud.

Dyma chydig o *insight* i fydd gwaith deintydd yn y GIG. Fel y gwelwch chi mae angen amynedd ac optimistaeth. Spoiler alert ... mae'r system ar ei thîn.

Cyn 2006 roedd deintyddion oedd yn gweithio i'r GIG yn cael tâl am bob eitem o driniaeth (h.y. pob llenwad, pob archwiliad a.y.y.b ...) ac felly roedd posib cael cyflog bach deche.

Nath y big bosses sylweddoli fod deintyddiaeth yn costio llond toman o bres i'r trethdalwyr ag yn le amlwg i wneud toriadau wrth 'ailstrwythuro'. Rhag cywilydd y deintyddion 'ma yn gallu ffordio prynu Ferraris ... mae'n rhaid bo nhw'n ecsplioitio'r cyhoedd. 'Odd y nannadd i'n hollol iawn tan i mi fynd at y deintydd 'wchi ...'

Wrth gwrs, be na sylweddolwyd oedd fod dannedd pobl wirioneddol angen eu trin. Oedd, mi oedd 'na gnewylln bach bach o ddeintyddion oedd yn gwneud mwy nag oedd raid, yn gneud un llenwad ychwanegol ar bob claf er mwyn gallu ffordio *service* y Ferrari. Os 'dach chi 'di gwyllo *Line of Duty* fyddwch chi'n gwobod fod 'na wastad *bent coppers*. Ond mae pydredd dannedd yn epidemig ac wastad wedi bod. Pydredd dannedd ydy'r prif reswm mae plant yn gorfod aros dros nos mewn ysbyty, a'r peth tristaf un ydy fod POB UN achos o bydredd yn ataliadwy.

Yn ei ffurf sylmaf mae'r hafaliad fel â ganlyn:

Siwgwr + peidio llunau dannadd digon da = tyllau = poen

Un o'm hoff bethau i'w gwneud ydy crafu'r *plaque* oddi ar un o ddannedd y person yn y gadair a'i ddangos o iddyn nhw.

Fi: Sbia ar hwnna. Be di hwnna?

Claf: Dwi'm yn gwobod.

Fi: Dduda i wrtha chdi be di hwnna. *Plaque*. Be 'di *plaque*?

Claf: Dwi'm yn gwobod.

Fi: Mae gen ti bryfed siwgwr yn byw yn dy geg. Ma nhw'n byw yng nghegau pawb – chdi, fi, dy fam... Bacteria o'r enw *streptococcus mutans* 'dyn nhw. Mae'r pryfed 'ma wrth eu boddau efo unrhyw beth sy'n cynnwys siwgwr. Ac os ti ddim yn brwsio dy ddannedd digon da ag yn gadael bwyd ar ôl, be sy'n digwydd dros nos ydy ma'r pryfed yn cael *midnight feast* ar yr holl fwyd 'na ti di adael ar ôl. Ag wedyn, mae nhw'n pŵ dros dy ddannedd di gyd. Asid ydy'r pŵ, sy'n pydru dy ddannedd di. A'r *plaque* yna ydy pŵ y bacteria.

Erbyn hyn maen nhw'n edrych ar y plaque ar fy ffon fach efo ffeidd-dod ... wedyn dwi'n deud:

Fi: Ogla fo ... dio'm yn ogla'n neis iawn nachdi. Dyna sy'n achosi i dy wynt di ddrewi. Llyfa fo wan.

Fel arfer maen nhw'n gwingo oddi wrth hynny, felly dwi'n gofyn:

Fi: Os nei di'm lyfu o, be mae o'n da yn dy geg di?

Dyddiadur y Deintydd Dr. Iona Gwilym

Mae enwau a manylion unigolion sy'n ymddangos yn y cyfraniad hwn wedi eu newid er mwyn gwarchod cyfrinachedd.





Bron yn ddi-ffael, y tro nesa mae nhw'n dod i ngweld i mae eu dannedd nhw'n lanach na jôcs cyn y watershed. Wrth gwrs, mae hyn fel arfer fwyaf effeithiol efo plant, mae o'n dechreg sy'n cywilyddio!

Peth ola cyn gwely ydy'r adeg pwysica i frwsio'r dannedd, ac wedyn mae angen gwneud ar un adeg arall yn ystod y dydd – 'dan ni fel arfer yn argymhell peth cynta' yn y bora achos bod hi'n haws dod i'r habit o 'neud hynny.

Wedyn o ran y siwgwr, diodydd ydy'r prif elyn. Yr unig ddiodydd sy'n saff i'r dannedd ydy dŵr tap, llefrith a the neu goffi heb siwgwr (gan gofio fod rhai eithriadau fel llefrithoedd dairy free wedi

eu melysu). Mae unrhyw beth melys, sticky neu asidig yn gwneud niwed i ddannedd, ac mae pop, *energy drinks* a diodydd alcoholig yn bob un o rheina. Mae unrhyw ddiodydd pigog yn gallu bod yn niweidiol, hyd yn oed rhei sugar free, achos asid ydy'r swigod. *Squash* ydy'r drwg i lawer – mae'r label yn deud 'no added sugar', sydd jysd yn golygu fod y gwneuthurwyr heb YCHWANEGU unrhyw siwgwr at y llwyth sydd ynddo fo'n barod.

Mae gan eich poer chi briodweddau alcali anhygoel. O ganlyniad, efo unrhyw fwyd neu ddiodydd llawn siwgwr, pa mor aml 'dach chi'n gael o sy'n gwneud niwed, dim faint. Os 'dach

chi'n pori ar fferins drwy'r dydd neu'n sipian eich mocha am oriau, chaiff eich poer chi ddim cyfle i niwtraleiddio'r ymosodiad siwgwr/asidig. Felly os am gael bar o siocled, i'w fwyta fo i gyd mewn un, yn syth ar ôl pryd o fwyd.

Ac yn fy marn i, y drafodaeth yma a'r addysgu ydy rhan bwysica' deintyddiaeth. Ond yn anffodus dwi'm yn cael y cyfle i hyd yn oed grybwyll hyn pan yn gweithio mewn practis cyffredinol achos mae pob deintydd yn hunan-gyflogedig ac yn cael eu talu fesul Uned o Weithgaredd Deintyddol (Unit of Dental Activity – UDA). 'Be di uned ta?' dwi'n eich clywed chi'n holi. Paratowch i gael eich swyno gan fiwrocratiaeth:

Mae pob triniaeth ddeintyddol wedi cael ei rannu i dri band, a dyma'r pris i'r cleifion yng Nghymru yn 2019/20:

Band 1 = check up, unrhyw x-rays 'dach chi angen a scale and polish (llneud iawn). £14.30

Band 2 = popeth ym mand 1 ac unrhyw lenwadau, tynnu unrhyw ddant, triniaeth sianel y gwreiddyn ac unrhyw driniaeth pellach ar y gorchfannau (*gums*). £46

Band 3 = popeth ym mand 2 ac unrhyw driniaeth sydd angen cymorth labordy e.e. dannedd gosod, coronau, pontydd. (O, ac mae'n rhaid i'r deintydd dalu hanner ffi'r labordy hefyd). £199.10

Am unrhyw driniaeth **Band 1** dwi'n ei gwblhau, mi ga i 1 UDA.

Band 2 = 3 UDA

Band 3 = 12 UDA

Mae gwerth UDAs yn amrywio o bractis i bractis, ond ar gyfartaledd, mae'r deintydd yn cael tua £10 cyn treth. Duwcs, ddim yn ddrwg - £10 am bob check up? Wel nachdi, ond ystyriwch hyn:

Cha i ddim hawlio'r unedau hyd nes fod yr holl driniaeth wedi ei gwblhau. Felly os daw Jim ata i wedi torri ei ddant blaen, mi wna i neud archwiliad, gweld bod dim arall yn bod, mi gymra i lun pelydr-x a mi lenwa i ei ddant o. 20 munud o'n amser i = Band 2 = £46 o fil i Jim, £30 i mhoced i. Happy days.

Wedyn mi ddaw Jo ata i efo ceg yn llawn pydredd. Mae o angen archwiliad, ambell lun pelydr-x, o leia 4 dant wedi ei dynnu, 6 llenwad ag un triniaeth sianel y gwreiddyn. Nifer sylweddol o apwyntiadau yn dod i gyfanswm o tua 5 awr o'n amser i = Band 2 = £46 o fil i Jo, £30 i mhoced i. Llai na'r *minimum wage*.

Rhesymeg y big bosses ydy fod na gymryd a rhoi. Fod sawl Jim yn gneud iawn am ambell i Jo. Ond pan 'dach chi'n gweithio mewn ardal ddifreintiedig lle mae canran uchel o'r boblogaeth yn Jos, mi allwch chi deimlo fel eich bod chi'n gwirfoddoli i'r GIG.

'Pam ti'n neud o ta?'

Cwestiwn penigamp. Ac yn un dwi'n ei ofyn i mi fy hun yn aml iawn.

Y gwir ydy mae'r momentau bach yn lleddfu'r poenau mawr. Ennill hyder claf pryderus. Cael 'diolch' syml gan hen wraig sy'n teimlo ei bod hi'n gallu gwenu am y tro cyntaf ers misoedd. Lleddfu chwydd poenus plentyn sydd heb gysgu ers dyddiau.

Ac wrth gwrs, ar hyd y ffordd, dwi wedi dod ar draws ambell i gymeriad ...

*

Mam yn ei hugeiniau: Stedda'n fanna'n hogan dda neu chei di ddim fferins wedyn fel nesh i addo.

Mi fydda i'n tynnu gwallt fy mhen pan mae rhieni'n gwneud hyn, neu'n cerdded mewn i'r syrjeri efo potel o bop.

Ei merch 4 oed: Pam bo ti'n y gadair mor hir Mam?

Mam: Paid a phoeni, mae dannedd Mami'n ddrwg. Ma dy rei di yn iawn ond ma rhei Dad'i'n waeth. Dwi'n falch fod o 'di ngadael i.

*

Fi: Felly mae ganddoch chi geg sych, sut 'dach chi'n drin o?

Dyn gordew 50 oed: Drwy yfad

Fi: Yfed be?

Dyn: Ddim be ddyliwn i ...

Fi: Sef ...

Dyn: Coke

Fi: Faint o coke?

Dyn: Dwi wedi torri lawr! Oni'n arfer yfed 10 litr y dydd, mond 2 dio wan.

Roedd o angen cael tynnu deg dant.

*

Hen wreigan: Ma 'ngheg i'n sôr o dan fy nannedd gosod i.

Fi: Iawn, dim problem, gai weld eich dannedd gosod chi plis? (*Fel arfer mae 'na ran garw ym mhlastic y dannedd gosod sy'n rwbio'r geg ac mi fedra i ei lyfnhau o mewn dim*)

Hen wreigan: O, dwi'm di dod â nhw efo fi, o'n i'm yn meddwl basa chi isho'i weld o.

*

Dynes 66: Are you the magic lady? I'm a vegan.

Wir yr, dyna oedd ei chyfarhiad cyntaf hi. Roedd ganddi ddau ddant problemus – un rhydd ac un wedi pydru. Roedd y ddau angen eu tynnu.

Vegan: Ooh, I'm not sure what to do, I'll just do some dowsing.

Nath hi godi ac egluro ei bod hi'n gofyn wrth ei chorff am yr ateb – fel mae'r corff yn 'pwysu tuag at ddŵr saff'(!)

Vegan: Do I take the bad tooth out?

**pwysu ymlaen* Yes!*

Do I have the wobbly tooth out?

**pwysu yn ôl* No.*

Felly dyna a fu. Nesh i dynnu'r dant pydredig.

Vegan: Can I request you next time, I prefer the energy here. What's your name?

Fi: Iona

Vegan: What's your birth sign?

Fi: Sagittarius

Vegan: Andy (y bos) is lovely, he's a Capricorn, but I prefer the energy here, can I come and see you instead?

Roedd hi'n ei hól bythefnos wedyn, isho'r dant rhydd wedi ei dynnu. Rwbath wedi newid yn ei dŵr hi mae'n rhaid.

Awgrym: *rhwygwch y dudalen gyferbyn allan i greu poster stampus. Gwnewch yr un fath â thudalennau 24-25 ✂✂*

DALIER SYLW

ENCIL Y STAMP

YNG NGHANOLFAN YSGRIFENNU TŶ NEWYDD
6-8 MEDI 2019

Ymunwch ag Esyllt Lewis, Elan Grug Muse, Llŷr Titus ac Iestyn Tyne, golygyddion cylchgrawn *Y Stamp*, am benwythnos arbrolol a chreadigol a chyfle i gyfrannu tuag at rifyn arbennig.


Bydd cyfle i gymryd rhan mewn gweithdai ysgrifennu creadigol, o greu ysgrifau difyr, i farddoni i sgriptio, a byddwn hefyd yn edrych ar greu celf mewn gweithdy braslunio. Byddwn yn trafod y byd cyhoeddi traddodiadol, a'r mwy modern, ac yn gweithio gyda'n gilydd i greu, dylunio, cysodi, a chyhoeddi rhifyn cyfan o'r *Stamp* yn ystod y penwythnos.

Croesawir awduron ac artistiaid o bob math, o'r dibrofiad i'r profiadol. Cewch ddihangfa creadigol, prydau bwyd cartref a chyfle i ymgolli'n llwyr yn y gwaith.

Fe grëwyd tai cyfan mewn un noson, felly siawns y medrwn ninnau greu cylchgrawn mewn dwy?

Ewch i tynewydd.cymru am ragor o fanylion

Gostyngwyd ffoedd y cwrs hwn er mwyn annog cyfranogiad cynulleidfaoedd newydd a/neu ifanc.



TIRLUN DINAS

*I fy nghyd-weithwyr yng Nghanolfan Gyswllt y
Cyngor, Newcastle upon Tyne, ar ôl i ni frwydro i
gadw ein swyddi.*

Mae pellterau
rhyngom ni a gweddill y byd.

O fewn meddwl peiriant cyfalaf
ry'n ni'n atgof pell
ond parhaus -
yn dal yma wedi'r alltudio,
wedi'n cuddio'n dda ymysg yr high rises
sydd yn ffurfio ffin rhwng y ddinas
a'i gorlif.

Edrychwn i fyny atynt trwy wydr cymylog:
murddunnod yw rhain,
hen dyrau yn sefyll yn erbyn
awyr llwydlas, twym y gwyll,
olion breuddwydion y ganrif gynt -
gwlad hael a gollwyd
mewn brwydrau ffyrnig.

Ohonynt, mae goleuadau gwan yn syllu drosom:
yr hen a'r ifanc, pobl a deithiodd
rhag bomiau pell a bwledi a saethwyd
gan blant eu cymdogion newydd, gweithwyr
fel nyni.

Ni sy'n clywed eu lleisiau'n
crynu drwy'r gwifrau telegraff
neu'n rhegi ar donnau lloerennau.
Ni sy'n ateb
eu galwadau am help
er nad oes dim gennym i'w gynnig
bellach.

*I'm sorry, there's nothing I can do
medd llais heb gorff
mewn tŷn swyddogol
sy'n atseinio am filltiroedd.*

Ac yn wir, does dim:
mae'r haelioni wedi hen ddod i ben
a'n cyfoeth wedi ei ddwyn o'n dwylo,
wedi'i rwygo ymaith megis muriau'r tŵr yn Kensington.

MORGAN RHYS POWELL






Lluniau Morgan Rhys Powell







SEREN MORGAN JONES
MORFUDD MEWN GAULTIER
OLEW AC ACRYLIG AR GYNFAS, 2019



Hwyr y nos, digwsg yw'r nen,
yn hwyhau'r oriau oren:
hwiangerdd sydd ei hangen.

Aflafar yw cynddaredd
rhuo dall y ceir di-hedd
a'r byd blin ar fin ei fedd.

Ond tawel ydyw'r tywod,
'mond y don sy'n mynd a dod
yn segur ym Mae Sogod.

Dyma haig o nodau mwyn
yn bachu min pob achwyn
a'r sêr yn deffro i'w swyn.

Mae ôl y cychod olaf
yn arwain côr yn araf
a sŵn y nos sy' nesaf.

O'r diwedd, fe ddaw'r lleddfu
ar ei hynt, mae'n amrantu
a rhyddhau cudynnau du ...

PADRE BURGOS

(Tref ar benrhyn Bae Sogod, De Leyte yn y Philipinau)

GEIRIAU A THECSTILIAU JUDITH MUSKER TURNER






Huna'r noswaith berffaith, borffor – a dail
y palmwydd du'n cribo'r
tresi cyn hel eu trysor
i orwedd ym mherfedd y môr.

Yn araf hwylia'r morgwn morfilaidd,
i loywi heno'u teyrnas halenaidd,
yn troi'r sêr yn fêl, trysor nefolaidd
i'w wisgo'n flanced dros groen melfedaidd.
Caria eu cefnau cawraidd gytserau,
tlysau a rhannau o'r lloer ariannaidd.

Gorwel o gwrel diguro – a dail
y palmwydd du'n cribo
lliwiau'r machlud a'u cludo
i wawr y riff o'u hen fro.

Pan ydyw'r nef yn llefain
a'r sêr wir yn ofni'r sain,
y rhodfa i noddfa'r nos
yw hwyrgan Padre Burgos.





CYHOEDDIADAU'R STAMP

Dyma gynnyrch diweddar gwsg annibynnol Cyhoeddiadau'r Stamp. Gallwch archebu copiau ohonynt o'n gwefan, ystamp.cymru neu fel arall, beth am gefnogi un o'r llu o siopau llyfrau lleol sydd bellach yn stocio ein cyhoeddiadau stampus ar eu silffoedd? Dyma nhw:

Cwpwrdd Cornel **LLANGFNI** | Awen Menai **PORTHAETHWY** | Palas Print **CAERNARFON** | Liên Llyn **PWLLHELI**
Siop Lyfrau'r Hen Bost **BLAENAU FFESTINIOG** | Awen Meirion **Y BALA** | Siop Inc **ABERYSTWYTH**
Siop y Pentan **CAERFYRDDIN** | Cant a Mil **CAERDYDD**

Os nad yw eich siop leol chi ar y rhestr uchod, beth am gysylltu â'r stampwyr neu'r siop i awgrymu ein bod yn unioni'r cam hwnnw? E-bostiwch cyhoeddiadau.ystamp@gmail.com



AILDDYCHMYGU'R STAMP

Lleucu Non


Ym mhob rhifyn o hyn allan, byddwn yn gofyn i artist ailddychmygu ein logo. **Lleucu Non** yw'r cyntaf i ymgymryd â'r her honno. **mae croeso mawr i chi dorri hwn allan a'i sticio fo ble y mynnoch. Ambell awgrym golygyddol: Teyrnwialen yr Archdderwydd, eich safle bws lleol, sbectol nain.*





Barddoniaeth

- cyfoes a chlasurol -



gomer.co.uk / gwales.com



Ysgol y Gymraeg
School of Welsh

Creu pobl sy'n creu newid

Ymunwch â ni yng Nghaerdydd i archwilio llên, iaith a diwylliant y Gymraeg mewn cyd-destun rhyngwladol a thraws-ddisgyblaethol.

- Astudiwch gwrs gradd BA yn y Gymraeg, BA Gymraeg a'r Gweithle Profesiynol neu dewiswch o blith ystod eang o raddau cydanrhydedd, sydd yn cynnig nifer o gyfleoedd profesiynol ac allgyrsiol.
- Dilynwch ein MA mewn Astudiaethau Cymreig a Cheltaidd - rhaglen sydd yn rhoi'r sgiliau a'r hyder ichi gyfrannu mewn modd creadigol ac ymarferol at y Gymraeg a'i diwylliant heddiw.
- Datblygwch brosiect ymchwil unigryw dan arweiniad ein staff arbenigol ar gyfer gradd ymchwil PhD.

"Dylanwadodd amryw o resymau ar fy mhenderfyniad i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn gyntaf, mae'n brifddinas fyrrymus sydd â mwy na digon o gyfleoedd, digwyddiadau a chyfneusterau ynddi. Mae'r Brifysgol hefyd yn un uchelgeisiol sy'n cynnig llawer iawn o gyfleoedd academaidd, cymdeithasol a phroffesiynol i fyfyrwyr fantesio amrynt tra bod darpariaeth Ysgol y Gymraeg yn amrywio, cyffrous a modern, a hynny mewn ysgol gartrefol a chrosawgar."



Osian Morgan (BA 2018, MA 2020)

Ystod o fodiwlau deinamig ac arloesol -
Gymuned glos a chyfeillgar – Proffad gwaith amrywiol

caerdydd.ac.uk/cymraeg | derbyncymraeg@caerdydd.ac.uk | 029 2087 4710

Atal Sgwennu Alun Saunders

'Sdim gair addas gyda ni yn Gymraeg am *play*, sef y peth fydd *playwright* yn ei chreu a'i sgwennu. Ma' hynna'n fy mhoeni.

Sgwennu 'drama' fydd 'Dramodydd'. Ie, wrth gwrs, ond ma' cydestun y gair Saesneg *play* yn dra gwahanol, yn gyfoethocach (yn fy marn i) na'r ymadrodd 'writing a drama'. Bleurgh. Maddeuwch i mi am bedio cyfeirio at *plays* fel 'dramâu' yma, ond nid 'dramâu' dwi'n eu golygu go iawn, ond *plays*. Pe-dantic, ondife?

Es i ar gwrs sgwennu llynedd i Fanceinion, wedi'i arwain gan Anjum Malik a Simon Stephens. Mae sgwennu Stephens, nid yn unig yn heriol, yn gyffrous ac egniol; ond mae gwrando arno'n trafod theatr a sgwennu ar gyfer y theatr fel gwrando ar Brian Cox yn sôn am y bydysawd... WAW. Mae ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'r grefft yn anferthol, yn heintus ac yn ysbrydoli unrhyw wrandawr i fynd ati. O'n i wedi fy swyno'n llwyr wrth wrando arno fe.

Mae Simon (BFF newydd fi wedi'r cwrs ... yn fy mhen) yn un sydd wedi sgwennu ar gyfer cwmnïau theatr mwya'r Deyrnas Unedig, ac wedi ennill Gwobr Olivier am drosi/addasu *The Curious Incident of the Dog in the Night-Time* yn gynhyrchiad llwyfan sydd wedi teithio o'r byd. Ond dyma ddyd hefyd a weithiodd fel athro am flynyddoedd cyn newid gyrfa a dod yn un o *Playwrights* mwya' llwyddiannus ei genhedlaeth. Tybed a ystyriodd hyn fel gyrfa posib a chynaliadwy cyn iddo hyfforddi a gweithio fel athro?

Mae hyd yn oed y ffordd mae e'n trafod y gair *Playwright* yn drydanol. Nid *Playwrite* yw'r teitl iaith Saesneg ar Ddramodydd, ond *Playwright*. Mae'r ôl-ddodiad *-wright* yn gysylltiedig, wrth gwrs, â chrefftau: *Shipwright* (un sy'n adeiladu a chrefftio llongau); *Wainwright* (un sy'n adeiladu a chrefftio cerbydau). Golyga *Playwright*, felly, un sy'n adeiladu a chrefftio'i *plays*; 'One who has wrought,' yw'r term dwi'n cofio'n glir i Simon ddefnyddio.

Dyw *Playwrights* ddim yn eistedd wrth y laptop (neu gyda beiro a phapur), yn dechrau sgwennu un bore, yn cwpla'r noson honno ac yn danfon y sgript at gwmnïau theatr i'w chynhyrchu a'i pherfformio'r wythnos ganlynol. OM-FFG, nagy'n.

Ry'n ni'n seiri ar ein gwaith. Ry'n ni'n ystyried; yn creu; yn breuddwydio; yn pendroni; yn oedi; yn llunio; yn crefftio; yn addasu; yn creu rhagor; yn ffurfio; yn ail-ffurfio; yn trafod; yn gwrando (os y'n ni'n gweithio gyda Cyfarwyddwr/aig neu Ddramatwrg y gellir ymddiried ynddynt); yn ail-ffurfio rhagor; yn poeni'n arw, ac - os y'n ni'n ddigon ffodus i weld ein syniad yn dwyn ffrwyth - yn rhoddi'n gwaith i eraill i ddehongli a chyflwyno ar ein rhan. Ac weithiau'n crio.

Nid newid leins a thynnu gair neu ddau allan fan hyn a fan draw yw ystyr a diben ail-ddrafftio, ond ail-strwythuro dy stori; gwneud synnwyr ohoni, ac ail-ffurfio dy waith er mwyn bod yn gliriach i'r gynulleidfa.

Pam yn y byd fase rhywun yn dewis mynd trwy'r fath drawma!?



Am fod gyda ni rywbeth i'w ddweud am y byd o'n cwmpas; rhywbeth i'w ofyn; rhywbeth ry'n ni wedi sylwi arno ac am herio. Ry'n ni ishe gofyn a oes unrhyw un arall wedi sylwi ar yr hyn ry'n ni wedi'i weld, a gofyn a ydyn nhw'n teimlo'r un peth neu'n llwyr wahanol am hyn?

Yn yr oes wleidyddol ry'n ni'n byw drwyddi (sicyfnfyngheg), onid oes dilyw o bethau sydd angen i ni eu herio? Rhestr fythol o themâu, o faterion a sefyllfaoedd i'w harchwilio a'u cwestiynu? Mae gennym ddemocratiaeth doredig; poblogaeth wedi'i rhwygo; gwleidyddiaeth begynol. Mae gennym epidemig iechyd meddwl, a system iechyd sy'n ein methu. Wrth i fi sgwennu hwn, dwi wedi darllen pŵl piniwn yn gofyn a fyddai'n well gan aelodau'r Llywodraeth (San Steffan) weld proses Brexit yn cael ei weithredu ar draul gweld yr Alban neu Ogledd Iwerddon yn gadael y DU. Doedd dim sôn am Gymru. Doedd Cymru ddim werth sôn amdani, appar-entli. Dyma sefyllfa i'n cythruddo.

Pam, felly, nad yw'n pobol ifanc ni yn ymateb i'r byd ac yn creu *plays* fel modd o brosesu, o herio'r byd o'u cwmpas nhw? Os yw creu darn o theatr yn fodd therapiwtig o fynegi'n poen a'n poenydion, o sbarduno sgwrs a thrafod a dadlau, ble mae'r cynnyrch?

Yn Eisteddfod yr Urdd eleni, dim ond pedwar o bobl ddewr ymgeisiodd ar gyfer y Fedal Ddrama. Pedwar. Fel un sy'n gweithio ym maes Theatr, ond hefyd fel person sy'n caru mynychu'r theatr a gweld gwaith newydd (a llai newydd), dwi'n gweld hyn yn beth rili trist, ond

hefyd yn rhywbeth sy'n codi cwestiynau hollbwysig.

O gymharu, ymgeisiodd pymtheg o bobl ar gyfer cystadleuaeth farddoni'r Gadair - dwi'n meddwl bod hyn yn nodweddiadol o'n traddodiadau Cymreig. Dwi'n meddwl bod ein traddodiadau barddol/barddonol yn amlycach na'n traddodiadau theatrig. Mae hanes y theatr Gymreig llawer yn iau na'n hanes barddonol ni. Hefyd, nid fel dewis tîm pêl-droed mae dewis sgil lenyddol ... Nid mater o 'un neu'r llall' yw hi. Dwi'n meddwl 'mod i'n gywir i ddweud bod llawer o'n buddugwyr barddonol eisteddfodol yn (neu wedi) gweithio ar dîm cynhyrchu'n opera sebon genedlaethol - yn amlwg, mae'r sgiliau'n drosglwyddadwy. Stori yw'r cysylltiad rhwng y cyfryngau hyn, wedi'r cyfan.

Dwi wedi bod yn ddigon ffodus i fod yn rhan o sgysiau a thrafodaethau brwd dros y flwyddyn neu ddwy ddwetha' am gyflwr y theatr Gymreig. Dwi'n teimlo'n hynod freintiedig o fod wedi 'nghynnwys mewn grwpiau trafod gyda Chyfarwyddwyr Artistig, Cynhyrchwyr a *Playwrights* mwya' blaengar Cymru wrth drafod ble'r ydyn ni arni. Dyma bobl 'dwi wedi bod yn gwylio ac astudio' u gwaith ers blynyddoedd. 'Dwi wedi eistedd yn yr ystafelloedd yma'n meddwl 'Rhain yw *A-listers* Theatr Cymru' ac yn teimlo'n *overwhelmed* i fod yn trafod gyda nhw.

Y math o bethau ry'n ni wedi bod yn eu trafod yw:

Oes yna ddigon o gynnyrch theatrig yn yr iaith Gymraeg?

Os oes pobol yn teimlo nad oes digon o gynnyrch, beth allwn ni wneud am hyn?

Cyfrifoldeb pwy yw 'gofalu' bod cynnyrch theatrig yn yr iaith Gymraeg yn ddigonol ac o safon?

Beth yw safon?

Sut allwn ni barhau i ddatblygu amrywiaeth o fewn theatr cyfrwng Cymraeg?

Sut mae datblygu a chynnal cynulleidfaoedd ar gyfer theatr cyfrwng Cymraeg?

Beth yw'r prif heriau a'r rhwystrau sy'n ein wynebu wrth greu theatr cyfrwng Cymraeg?

Eleni, hefyd, arweiniais weithdy

sgwennu gyda grŵp Theatr Gen Creu - grŵp o bobl sydd wedi derbyn comisiwn gan y cwmni i greu ac (yn bwysicach fyth), i ail-ddrafftio sgriptiau newydd sbon. Eto, roedd hi'n bleser anferthol i eistedd mewn stafell gyda grŵp o bobol ar ddechrau taith anhygoel, gyda chefnogaeth ein cwmni theatr cenedlaethol ni. Cawsom y cyfle i drafod eu profiadau a'u barn onest ar y cynnyrch theatr roedden nhw wedi'i weld. Efallai mai un o'n ffaelectedau anffodus (a damweiniol) fel cenedl yw bod cylchoedd cyfrwng Cymraeg mor fach ei bod yn gallu profi'n anodd i rannu beirniadaeth hanfodol wrth i ni boeni'n ormodol am frifo teimladau rhywun y mae gennym gysylltiad â nhw. Ond hefyd, mae'r cynnyrch mor brin, dwi'n meddwl ein bod ofn beirniadu'n llym rhag ofn i bobol digalonni a phenderfynu peidio creu rhagor ... Efallai bod angen i ni fel Cymry ddysgu rhoi a derbyn beirniadaeth yn well ...?

Dechreuais sgwennu (sgriblo syniadau i ddechrau) nôl tua 2005 pan oeddwn i yn fy ugeiniau, oherwydd 'mod i wedi diflasu ar gymaint o'r theatr a theledu ro'n i'n gwylio yn y Gymraeg. O'n i wedi diflasu ar gwyno am ba mor ddiffas neu amherthnasol oedd y gwaith. Diolch i Mared Swain, ffrind *amazing* ac, erbyn hyn, cyd-weithiwr a mentor, es i ati i drïo. A dwi'n blincin falch 'mod i wedi.

Yr hyn dwi ddim hyd yn oed wedi dechrau sôn amdano eto yw dwyieithrwydd a theatr ddwyieithog. Falle bod hyn yn rhywbeth i'w drafod yn ddyfnach rhywbryd eto, ond fel gwneuthurwr theatr dwyieithog, dwi wedi ceisio creu gwaith dwyieithog am reswm, sef i dynnu cynulleidfaoedd newydd i fewn i weld gwaith yn fy mamiaith. Dwi ishe agor y drws i bobol weld fod theatr cyfrwng Cymraeg yn rhywbeth amgenach na ffurf na fyddent yn medru ei deall; i weld pa mor wych mae'n medru bod. Dyna'r gobaith.

Ar hyd y ffordd nes i sgwennu (a chynhyrchu, drwy ein cwmni, Neontopia) darn o'r enw *A Good Clean Heart*. Aethon ni fel cwmni, gyda chefnogaeth Canolfan Mileniwm Cymru a Theatr Genedlaethol Cymru, â'r cynhyrchiad i Wyl Caeredin ac ar daith drwy Gymru. Un o'r pethau ro'n i fwyaf proud o'i gyflawni oedd gweld ymateb pobol ifanc, a thrafod gyda nhw y syniad o weld theatr gyfoes, gyffrous, deinamig a pherthnasol oedd yn (neu'n cynnwys) yr iaith Gymraeg. Ry'n ni angen rhagor o hyn. Lot ohono.

Mae hyder ieithyddol y boblogaeth yn amrywiol. Mae'n amser i ni gydnabod hyn, a dwi ddim yn meddwl ei bod hi'n beth drwg i ni wneud hynny. Dwi wedi cynnal digon o weithdai mewn ys-

golion i glywed nad y'n nhw'n gwylio neu'n rhyngweithio gyda theatr a theledu cyfrwng Cymraeg. Dwi wedi eu clywed nhw'n dweud hyn. Mae angen i ni fynd i'r afael â hyn, felly, i apelio'n well ac i fod yn berthnasol ac yn ddeniadol.

Os nad yw sgwennwyr newydd (beth bynnag fo'u hoedran - nid 'ifanc' mo pob sgwennwr newydd) yn gweld gwaith sy'n eu hysbrydoli, sy'n eu cynddeirio ac sy'n cynnau fflam, yna pam fydden nhw'n penderfynu dewis gwneud hynny fel gyrfa? Os nad yw'r gwaith maen nhw'n ei weld yn eu cyffroi, yna pa reswm fyddai ganddynt i feddwl 'Dwi ishe gwneud hynna!'

Dwi'n cofio'n glir mynd yn 17 oed i weld cynhyrchiad o *House of America* gan Ed Thomas yn Theatr y Grand, Abertawe. Dwi'n cofio'r profiad o weld cynhyrchiad oedd mor egniol, mor gyffrous a dychrynlyd nes 'mod i'n meddwl 'Dwi ishe gwneud hynna.' Mae'r genhedlaeth iau angen cael eu hysbrydoli yn yr un modd.

Dyw dramâu (argh, nes i deipio fe a nawr dwi am ei adael yna!) ... *plays* ... ddim yn cael eu sgwennu er mwyn cael eu darllen, eu dadansoddi a'u hastudio. Maen nhw'n cael eu sgwennu er mwyn eu llwyfannu, eu perfformio a'u profi'n fyw. Ry'n ni angen ysbrydoli cenedlaeth newydd o sgwennwyr fydd yn ysu i gael rhannu eu syniadau, eu syniadaeth, eu meddyliau a'u profiadau gyda ni, eu cynulleidfa.

Dwi ddim am bregethu ac yna ishte nôl a disgwyl i hyn i ddigwydd, dwi am weithredu. Dwi am gysylltu â sefydliadau a all fod o gymorth er mwyn newid hyn. Mae'n bosib y bydd hyn yn golygu rhoi o'm hamser i newid y sefyllfa. Dyna ni, dwi am wneud beth alla i.

Mae angen mentro - a mentro'n ddewr - os y'n ni am chwilio'n henaid a'n calonnau am syniad, am stori, am achos neu thema i'w harchwilio. Ry'n ni'n gorffod creu, ail-greu, ffurfio ac ail-ffurfio, ac yna rhyddhau ein babi er mwyn i gynulleidfa ei brofi a'i feirniadu ... Ac weithiau i ddweud pethau go onest ac anodd eu clywed am y peth bach sydd wedi dod o'n henaid ni. Ond fel hyn ry'n ni'n sbarduno trafodaeth, dadl a newid. Dyma bŵer y theatr.

Am yrfa *bizarre*. Ond hollol ffri-cin gwych.

Os ydych chi'n teimlo tân yn eich bol dros y theatr ar ôl darllen ysgrif Alun Saunders – cofiwch fod Y Stamp: Rhifyn 5 - Haf 2018, ein rhifyn arbennig ar fyd y theatr, yn dal i fod ar gael.

Glöyn Marw

Mared Roberts

Nid ar chwarae bach y mae dal iâr fach yr haf. Araf deg mae ei chipio hi. Ei dwy adain, yn fosäig eu gwedd ac yn bapur tusw eu teimlad, yn rhuglo rhwng gwyddfid un funud ac yn saethu ar fymppy i'r pellter y nesaf. Ei phetalau les yn ei harwain drwy'r ehangder ac yn ei thywys at ddiogelwch digyffwrdd. Ond, unwaith y bydd wedi'i chwpanu rhwng dy ddwy law, digon hawdd yw ei sgrenio a'i rholio'n belen grebachlyd. Ac yna'i chwythu oddi ar un, fel petaet ti'n gwneud dymuniad. Dy boer yn rheg ar ei hôl hi, a hithau'n llyncu'r sarhad.

Rwyt ti'n rhwbio dy ddwylo i gael gwared ar y budreddi. Wedi brwydro drwy'r brwyn, rwyt ti'n troi dy olygon tua'r môr ac yn cymryd hoe, gan ymfalchio ynddot ti dy hun a llygadu llinell feddw'r arfordir y tu ôl iti. Braff yw gweld mor bell y gall dy goesau bach dy dywys. Rwyt ti'n cymryd dracht o ddŵr i dorri syched. Tynnu dy fag oddi ar dy gefn a mofyn afal, banana a *Bourbons* ohono. Dyw bananas ddim yn teithio'n wych. Ffling i hwnnw. Rwyt ti'n pwyso a mesur y ddau ddewis arall, cyn gosod yr afal yn daclus yn ôl yn y boced a rhwygo plastig y *Bourbons* nes datgelu mwy na phedair haen ohonynt.

Byddi'n cerdded yr arfordir yn aml. Byddi'n mwynhau'r teimlad o fod ar ben draw'r tir. Y pwynt lle mae'r ffiniau'n cyffwrdd â'r môr. Byddi'n mwynhau cael cynfas yr awyr *tiedye* yn ffau uwch dy ben, a'r eithin yn fanila melys yn dy ffroenau.

Rwyt ti'n llithro dy fawd dros y sgrin ac yn tynnu llun, cyn llithro dy fawd deirgwaith eto i ddewis y ffilter. Ni fydd ffotograffau byth yn gwneud cyfiawnder â'r creigiau a'u haenau toblronaidd, na'r ceffylau gwyn sy'n sglegfrio yn eu herbyn. Rwyt ti'n ei bostio.

Nawr, rwyt ti ar dy ben dy hun. Neb arall yn y byd yno i dy annog y naill ffordd na'r llall. Dim ond ti a dy feddwl di dy hun. Rwyt ti'n camu ymlaen; yn gwyllo'r glas oddi tanat. Yma, all neb dy rwystro rhag hyrddio dy hun dros yr ymyl.

Mae bod, yma, fel seiclo ar drac trê; fel mynd ar dy daith a disgwyl i'r cerbyd dy ddal i fyny rywbryd, ond heb wybod yn union pa bryd. A phan fyddi'n penderfynu cymryd hoe, a phwyso crothau dy goesau ar y darnau dur, byddi'n gweld y goleuadau yn anelu amdanat, a byddi'n teimlo dy gorff llonydd yn rhwygo'n ddarnau rhwng yr olwynion yn araf deg.

Rwyt ti'n meddwl amdano'n aml. Ers dy eni, yn ofni dy fodolaeth ac yn anifyr o sicr y byddet ti, ryw ddydd, yn dweud ffarfél drwy falu dy gar yn erbyn coeden. A'r Fiesta, wedi moelyd, yn gelain i gyfeiliant Bill Withers – *Lovely Day*. Neu'n seiclo ar hyd y palmant saff, yn meindio dy fusnes, a'r cerddwr o dy flaen yn palfalu yn ei boced. Tithau'n newid gêr ac yn cyflymu cyn i hwnnw ryddhau'r twca wrth dy ymyl a'i ddal wrth dy fogel wrth iti seiclo dy hun drwyddo. Neu'n llithro yn y bath, wedi sesiwn ddiniwed o leddfdu dy groen sych â gwasgiad go lew o *Baby Oil*, ac yn glanio'n bendramwnwgl ar y tap, a hwnnw'n cleisio dy arleisiau'n ddu.

A'r oll sy'n weddill ohonot yw'r syniadau bras yn dy lyfr nodiadau o dan dy wely.

Rwyt ti'n gosod Bourbon cyfan yn dy geg ac yn llithro dy fawd dros y sgrin unwaith eto. Rwyt ti'n rholio drwy'r rhestr, ac yn sylwi nad yw wedi'i weld eto. Rwyt ti'n gwenu.

Rwyt ti'n dechrau gwacáu dy bocedi. Rhwng gwe'r gwm cnoi ym mhoced dy jîns, rwyt ti'n estyn am yr ychydig bunnoedd a'r tusw brwnt a'r beiro oddi mewn. Dyma ddechrau matryd. Rwyt ti'n tynnu dy Levi's dros dy bigyrnau a'r polo neck llwyd dros dy ên. Rwyt ti'n borcyn. Dim byd arall i dy dynnu i lawr ond tydi dy hun. Dim ond ti a dy gnawd.

Rwyt ti'n cyrcydu, ac yn rholio dy droed dde dros y dibyn. Rwyt ti'n ei thynnu'n ôl. Troi o dy amgylch ac ymestyn am dy adenydd. Rwyt ti'n mofyn y siswrn, ac yn dechrau eu rhwygo oddi ar dy gefn. Snip, snip. Yna'n llithro'r siswrn ar eu hyd, fel y byddai Nain yn ei wneud

wrth dorri papur lapio ar adeg dy ben-blwydd. Wrth iti brifio, rwyt ti wedi gallu meistrolï'r gamp. Rwyt ti'n cadw mor agos â phosibl at y byw.

Gosodi dy adenydd wrth dy ymyl ac edmygu'r crosio cymhleth sy'n frith o liwiau o dy flaen. Y ddwy adain yn gymesur â'i gilydd ond yn wahanol i bob adain arall yn y byd. Dyma ti. Yr hyn a oedd yn dy wneud di'n unigryw bellach wedi datod oddi wrthot. Rwyt ti'n teimlo'n well yn barod, wedi iti ddatgysylltu dy hun oddi wrth yr hyn a oedd yn dy atgoffa o bopeth sy'n dy gadw di'n effro gyda'r nos. Y rheiny a waeddodd; y rheiny a chwarddodd; y rheiny a regodd. Nos da. Rwyt ti'n eu sgrenio'n beli rhwng dy ddwy law ac yn gadael iddynt rollo dros y dibyn. Rwyt ti'n gwyllo'r ddwy bêl yn glanio ar y dŵr; yn arnofio fel cyrff ac yn araf ddadfeilio wrth i'r tonnau eu llarpio'n ddim.

Rwyt ti'n neidio. Yn hyrddio dy gnawd dros y dibyn, a'r gwynt yn sychu'r briwiau'n ddwy grachen ar dy gefn. Rwyt ti'n dechrau gwella. Dy lygaid yn soseri wrth wyllo'r glas yn araf ddyfnhau o dy flaen. Rwyt ti'n cwmpo. Dy gorff yn bêl mewn gêm o *pinball* rhwng y creigiau. Rwyt ti'n glanio. Dy asennau'n slapio'r wyneb didostur, a thithau'n diflannu ymhell i ddwndwr y dyfnderoedd. Rwyt ti'n gwrando. Clywed y môr yn orchudd dros dy glustiau. Yr hylif hwnnw sydd wedi bod yn dy gadw'n fyw erioed yn doddi ei freichiau o dy amgylch ac yn dy wasgu'n dynn, dynn. Rwyt ti'n araf godi. Yn gwneud dy orau glas i beidio ag ildio, a thagu ar yr heli hallt. Rwyt ti'n agor dy lygaid. Yn gweld y lliwiau tanddwr yn ffilter annelwig o dy flaen.

Rwyt ti'n crynu. Rwyt ti'n gwenu, ac yna'n rholio dy droed yn erbyn y pridd o dy flaen.





Chwarae i fynegi.
 Chwarae i ddiddanu.
 Chwarae i ddianc.
 Chwarae i gysylltu.
 Chwarae i seibio.
 Chwarae i ddarganfod.
 Chwarae i ryddhau.
 Chwarae i deimlo.
 Chwarae i dyfu
 Chwarae i gyfaddawdu.
 Chwarae i ddysgu.
 Chwarae i fethu.
 Chwarae i herio.
 Chwarae i chwilfrydu.
 Chwarae i archwilio.
 Chwarae i gydnabod.
 Chwarae i ddiddori.
 Chwarae i gwestiynu.
 Chwarae i arsylwi.
 Chwarae i sylwi.
 Chwarae i weld.
 Chwarae i wrando.
 Chwarae i drafod.
 Chwarae i ddychmygu.
 Chwarae i fodoli.
 Chwarae i ysbrydoli.
 Chwarae i freuddwydio.



"'Da ni gyd yn creu ein 'gêm' ein hunan drwy'r amser... 'Da ni gyd ynghanol ein bydysawd ein hunan ... Felly, pan mae newid yn y byd sydd o'n cwmpas, sy'n gyffrous neu weithia'n anodd ... Mae pob nano-eiliad yn gyfle i ni chwarae ar ail-greu ein bydysawd. Mi fedrwn ni wneud y 'gêm' 'da ni'n ei chwarae yn un hapusach, a hapusach ..."

- Nain plentyn â gymerodd ran yn un o fy ngeithdai.



Chwarae i ddeffro.
 Chwarae i ffynnu.
 Chwarae i ysgogi.
 Chwarae i gryfhau.
 Chwarae i greu.
 Chwarae i ryngweithio.
 Chwarae i ddatblygu.
 Chwarae i esblygu.
 Chwarae i gyfathrebu.
 Chwarae i ymyrryd.
 Chwarae i symud.
 Chwarae i leisio.
 Chwarae i arbrofi.
 Chwarae i ddeall.
 Chwarae i fodloni.
 Chwarae i lawenhau.
 Chwarae i ddad-ddysgu.
 Chwarae i ysgwyd.
 Chwarae i sgrechian.
 Chwarae i rannu.
 Chwarae i gyffwrdd.
 Chwarae i floeddio.
 Chwarae i ganu.



Chwarae i ddawnsio.
 Chwarae i ymgoill.
 Chwarae i lonyddu.
 Chwarae i leddfau.
 Chwarae i garu.
 Chwarae i grio.
 Chwarae i chwerthin.
 Chwarae i atgoffa.
 Chwarae i gysuro.
 Chwarae i gynefino.
 Chwarae i ymgyfarwyddo.
 Chwarae i anghynefino.
 Chwarae i berthyn.
 Chwarae i esbonio.
 Chwarae i ddelio.






Chwarae i iacháu.
 Chwarae i ofalu.
 Chwarae i ymchwilio.
 Chwarae i ymarfer.
 Chwarae i ymlacio.
 Chwarae i ennill.
 Chwarae i ymestyn.
 Chwarae i wireddu.
 Chwarae i frwdfrydu.
 Chwarae i ehangu.
 Chwarae i adeiladu.
 Chwarae i ddad-adeiladu.
 CHWARAE I CHWALU.
 Chwarae i ddyfeisio.
 Chwarae i ail-ddyfeisio.
 Chwarae i angori.
 Chwarae i gefnogi.
 Chwarae i ddaearu.
 Chwarae i hedfan.
 Chwarae i neidio.
 Chwarae i ddeifio.
 Chwarae i deithio.
 Chwarae i gario.
 Chwarae i chwilio.
 Chwarae i joio.
 Chwarae i Gymru.
 Chwarae i ddal.
 Chwarae i wthio.
 Chwarae i chwyldroi.
 Chwarae i chwynnu.
 Chwarae i dynnu.
 Chwarae i dynnu.
 Chwarae i bleseru.
 Chwarae i yrru.
 Chwarae i wenu.
 Chwarae i fod.
 Chwarae i chwarae.
 Chwarae i ddychwelyd.
 Chwarae i fucking dathlu!
 Chwarae jyst achos.
 Chwarae i ail-fyw.
 Chwarae i fyw.

**"Y peth gwaethaf
 wnaiff rhywun
 ydy ymddeol."
 -Taid**



**MANIFESTO
 EL GAN RHYS**

Ar Ben y Lôn Idris Reynolds



Tybed ai Idris Reynolds yw bardd mwyaf traddodiadol Cymru heddiw? Mae'n anodd meddwl am unrhyw fardd arall y mae ei ganu'n tarddu mor naturiol o'r rhan o'r ddaear y mae o'n byw arni yng

ngodre Ceredigion, ac yn tynnu maeth mor ddiymdrech o'r llinach y mae o'n hanfod ohono, sef llinach Bois y Cilie, Dic a T. Llew Jones.

Nid peth drwg ydi hynny, nid peth drwg ydi traddodiad yn ei hanfod, a does fiw i neb ohonom ni droi ein trwynau ar y traddodiadol, hyd yn oed y rheini ohonom sy'n ymhyfrydu mewn bod yn chwyldroadol ac arbrofol. Mewn gwagle y buasai pob darn o lenyddiaeth yn bodoli heb ryw fath o linyr arian i glymu popeth ynghyd. Mae gwybod o ble y daethom ni yn help inni wynebu'r byd heddiw; mae adnabod ein hunain yn dda yn golygu bod gennym ymwybyddiaeth o'n gwendidau a'n diffygion, ac yn ein galluogi ni i fynd i'r afael â'r pethau hynny.

Ond mae angen cadw cow ar y traddodiadol hefyd. Ar ei waethaf gall fod yn fyfiol, yn hunanbwysig ac yn hunandyrchafol. A chan ei fod o'n fardd meddylgar a sensitif, mae'n andros o biti bod Idris wedi (neu o leiaf yn ymddangos

ei fod wedi) syrthio i'r twll hwnnw unwaith neu ddwy.

Cerdd sy'n barodi ar 'Cwm Alltcafan' T. Llew Jones ydi 'Geiriau a Gerais,' cerdd a ysgrifennwyd i ddathlu cyhoeddi cyfrol o'r un enw gan T. Llew. Ynddi, mae'r penillion a ganlyn:

A fûm i yn dywyll? Naddo,
nac yn canu'n benrhydd chwaith,
ond fe fûm yn cynganeddu
ar Foel Gilie lawer gwaith.

Gweled gwerth i theorïau
mewn barddoniaeth? Naddo fi.
Tra bod rhai yn dadstrwythuro
dilyn awen oeddwn i.

Mae hi'n gerdd sy'n ymddangos yn geidwadol ac yn adweithiol, yn mynnu gweld symrlwydd yn soffistigeiddrwydd, sentimentalïaeth yn rhesymegol. Bron nad ydi hi'n hawlio goruchafiaeth foisol canu telynegol, rhamantaidd, ac yn honni mai ynfytyr neu infidel ydi unrhyw un sy'n canu neu wirioni'n wahanol.

Ond mae cyd-destun y gerdd yn achub (gair anffodus) rhywfaint arni. Cerdd i'w darllen mewn lansiad llyfr gan T. Llew Jones, a cherdd ym mhersona T. Llew Jones ei hun ydi hon, ac fe'i cyfansoddwyd pan oedd T. Llew yn dal yn fyw. Dw i'n hoffi meddwl fod yna elfen o ddychan ynddi, bod Idris yn tynnu coes T. Llew am fod mor geidwadol ac unplyg fel y bydden ni yn tynnu coes perthynas hÿn sy'n gyndyn o symud gyda'r oes. Fe all y gerdd hon fod yn nhraddodiad ymrysonau rhwng beirdd â'i gilydd, ond na ddaeth ateb gan T. Llew, hyd y gwn i.

Gallai mwy o gyd-destun fod wedi gwella ambell gerdd arall hefyd.

Mae'r gerdd 'Prifysgol' yn ddamniol ond nid yw'n gwbl glir beth y mae'n ddamniol ohono, a heb gyd-destun mae'r llinell 'o radd i radd lleddir iaith' mewn perygl o swnio'n wrthddeallusol.


Ond camargraff o'r gyfrol gyfan a rydd yr enghreifftiau uchod. Yn ei hanfod mae hon yn gyfrol gynnes, agored yn y dull y byddech yn ei ddisgwyl mewn cyfrol gan Idris Reynolds: yn gymen a solet gyda threiddgarwch diymhongar a sicrwydd tawel. Mae hi'n gyfrol eang sy'n crybwyll Gernika a Joe Allen, yn moli heddychwyr ac arlunwyr, ac yn talu teyrnged i Stuart Cable ac Eirug Wyn.

Ond cyfrol sy'n tarddu o'r gymdeithas y mae Idris yn byw ynddi ydi hi'n bennaf, yn trafod ac yn moli pobl a phethau'r gymdeithas honno, ac mae'n hawdd dychmygu'r cerddi'n cael cymeradwyaeth wresog gan gynulleidfa mewn talwrn neu ddiwyddiad cyhoeddus arall.

Ceir teimlad fod Idris yn fardd greddfod iawn, yn un sy'n ei chael yn hawdd ymateb ar gân i'w fywyd ei hun, i'w gymdeithas ac i'r byd, a gwneud hynny mewn modd dawnus dros ben. Ond synhwyrir ei fod yn fardd pwylllog, ac yn dipyn o berffeithydd hefyd: golygodd yr hir a thoddaid ysgubol 'Etifedd' yn helaeth cyn ei gyhoeddi, er i'r fersiwn gwreiddiol ennill deg marc cwbl haeddiannol ar y Talwrn flynyddoedd yn ôl. Mae'r llewyrch y mae'r gofal a'r grefft a'r ddawn honno wedi'i greu yn peri bod hon yn gyfrol ddifyr a darllenadwy sy'n fwy na gwerth pori drwyddi.

Gomer - £9.99

Perthyn Sian Northey



Dyma drydedd nofel Sian Northey ar gyfer oedolion ac, yn yr un modd ag *Yn y Tŷ Hwn* (2011) a *Rhyd y Gro* (2016), mae *Perthyn* yn nofel deimladwy, dynn a hynod gofiadwy.

Dilyn stori Helen a'i mab, John, a wnawn wrth i'r fam fyw efo cyfrinach sy'n dylanwadu ar bob agwedd ar ei byd. Mae'r nofel yn agor â phrolog sy'n bachu sylw'r darlennydd yn syth ac sydd, erbyn

deall, yn gweu'n daclus â'r bennod glo. Wedi hynny, cawn ein cyflwyno i Helen a'i babi ifanc, John, wrth iddynt gyrraedd gorsaf Penrhyndeudraeth ar eu pennau eu hunain, a hynny yn y 1930au. Wrth i'r nofel fynd rhagddi, daw'r amser i Helen rannu'i chyfrinach efo John, ac oherwydd y gyfrinach honno, y mae'n rhaid i'r fam a'r mab symud o le i le yn aml rhag bradu'r gwir. Yn ddiau, mae Helen yn gymeriad hynod ddiddorol ac amlweddog. Ar un olwg, mae rhywbeth trasig iawn amdani wrth iddi orfod byw efo'r gwir sy'n fythol reoli'i bywyd. Wna'i ddim datgelu'r gyfrinach gan y bydd hynny'n tynnu oddi ar gyfaredd y nofel, ond mae'r ffordd y mae'r gwir cuddiedig yn effeithio ar fywyd Helen, ei mab, ac yn ei thro, ei hwyres, Llywela, yn hynod ddiddorol. Mae'r berthynas rhwng Helen a'i mab, a rhwng y nain a'i hwyres, yn anarferol ond, o'r herwydd, yn gymaint gryfach

na'r cyffredin. Yn wir, bron na theimlir fod y clymau rhwng Helen a John, a Helen a Llywela yn glymau tynnach na rhai mam-a-mab a nain-ac-wyres 'arferol'.

O sylwi'n benodol ar deitl y nofel (sydd, fel y cynnwys ei hun, yn dwyllodrus o syml), archwilir gwahanol agweddau ar 'berthyn' trwy gydol y nofel – perthyn gwaed, perthyn i le arbennig, a pherthyn i oes benodol. Cyfoethogir hyn gan ymdriniaeth feistrolgar Sian Northey â sawl thema, gan gynnwys natur a rôl y fam, perthynas mam â phlentyn, clymau teuluol a chlymau cyfeillion, gafael digyfaddawd unigrwydd, a meidroldeb bodau dynol. Mae cariad hefyd yn agwedd sy'n tanlinellu'r themâu hyn; delweddir grym a gafael cariad yn ei amrywiol ffurfiau, gan hefyd gyfleu, ar sawl achlysur, ddagrau cariad.

Ar y dechrau, mae *Perthyn* yn darllen fel un math o nofel ond wrth iddi

ddatblygu'n raddol, ac wedi i'r gyfrinach gael ei datgelu, mae'n darllen fel math arall o lyfr, a hynny mewn modd cwbl naturiol. Mae dawn dweud Sian Northey yn sicrhau fod yr ysgrifennu'n bleser i'w ddarllen ac mae'r cymeriadau amlhaenog yn rhai sy'n cydio ac yn ennyn cydymdeimlad yn syth. Ac, fel sy'n nodweddiadol o Sian Northey, mae crefft y cyfarwydd i'r naratif, sy'n golygu bod y darlennydd yn cael ei rwydo o'r dechrau a'i dywys hyd at ben y daith gan awdur sy'n feistr ar ddweud cymaint mewn ychydig eiriau. Er enghraifft, delweddir cymdeithas bentrefol mewn modd cofiadwy:

Rhyw gyfarfod yn y dirgel wnaethon nhw am sbel go lew. Ond does dim posib i ddim byd fod yn

gyfrinach am yn hir mewn pentref. Efallai mai'r waliau sy'n clywed, neu'r palmentydd, neu efallai mai'r ffenestri sy'n dweud wrth bawb. Ond yn y diwedd mae pob un sydd isio clywed wedi clywed.

Yn yr un modd, ceir sawl cymal a brawddeg wirebol eu naws, eto'n nodweddiadol o waith, ac yn arbennig, farddoniaeth a llên feicro Sian Northey. Er enghraifft, 'waeth faint o farwolaethau sydd yn rhan o fywyd rhywun maen nhw'n dal i gael effaith.' Felly hefyd, 'Prociodd ei theimladau fel mae rhywun yn procio dant drwg â'i dafod a danganfod ychydig bach o siom.'

Byddai rhai'n dadlau, efallai, y gellid bod wedi gwneud 'mwy' efo syniad canolog y nofel, y gyfrinach fawr, ond i


mi, mae ymdriniaeth gynnill, ofalus a thawel Sian Northey yn sicrhau bod stori'r nofel yn datblygu'n naturiol ac yn cael mwy o effaith o'r herwydd. Mae hyn hefyd yn gofalu fod y stori a'r ambell elfen 'afreal' yn gwbl gredadwy.

Yn wir, cytunaf yn llwyr â dyfyniad Gruffudd Eifion Owen ar glawr y llyfr, 'Dyma berl o nofel', ac, fel *Yn y Tŷ Hwn a Rhyd y Gro*, byddaf yn bendant yn troi'n ôl at *Perthyn* eto gan fod cymaint mwy i'w ganfod yn y dweud twyllodrus o syml.

Gomer - £8.99

ADOLYGIAD – NOFEL

Pedwaredd Rheol Anhrefn Daniel Davies



Bron y medraf glywed arwyddgan gyffrous yr A-Team wrth i mi sgwennu'r adolygiad hwn —ac yn sicr mae'r nofel yn haeddu monolog dechreuol tebyg; yn gryno, os ydych chi'n ffan o ffuglen ysbïaeth

anghredadwy a hwyl, byddwch wrth eich boddau hefo hon. Mae yna gyfeiriadaeth amlwg at *007*, a thasa rhywun yn mynd ati i wneud fflm ohoni, yna'r *Kingsman* Cymraeg fyddai honno. Yn ogystal â'r dechnoleg arloesol a'r cynlluniau *McGyver-esque*, mae yna ambell linyr stori 'oldie but goldie' yma, fyddai'n plesio ffans brwd o waith Agatha Christie.

Mae wedi ei lleoli yn rhannol mewn trefi cefn gwlad, gyda golygfeydd digri o fywyd pob dydd a ffraeo dirmygus, wedi ei gymysgu hefo melodrama rhyngwladol yr ysbiwyr. Yn ogystal, mae yna ddigon o lofruddio a throadau yn y stori iddo groesi draw i genre'r '*Dirgelwch lofruddiaeth*'; serch hynny, nid yw hi'n cweit ddigon swreal i gael ei ystyried ar yr un dudalen a fy hoff gyfres, *Midsomer Murders*. Fodd bynnag, wrth weld sut mae'r stori'n datblygu erbyn diwedd y nofel, efallai fod sgôp i

symud i'r cyfeiriad yma hefo'r nofel nesaf —gan fawr obeithio fod Daniel Davies am ychwanegu trydedd nofel i'r gyfres.

Mae'n ddi-ddorol i mi feddwl am ddilyniant posib, o ystyried nad oeddwn wedi darllen y nofel gyntaf yn y gyfres: '*Tair Rheol Anhrefn*'. Mae hyn braidd yn sarhaus wrth gwrs, o ystyried fy niddordeb yn y genre; ar y llaw arall, mae hi'n arwyddocaol o duedd mewn arferiadau darllen trigolion ardaloedd y gororau, a'r alltudion sy'n byw dros y ffin. Felly mae'r nofel yma'n rhan o fudiad pwysig i normaleiddio nofelau ffantasiol yn y Gymraeg. Pleser hefyd yw cael dweud ei fod yn gweithio fel llyfr ar ben ei hun — nid oes angen bod wedi darllen y llyfr cyntaf i'w fwynhau.

Er fy mod yn amlwg wedi gwirioni hefo'r nofel, fel unrhyw adolygydd gwerth ei halen, mae'n ddyletswydd arnaf i geisio trafod gwendidau — er mor boenus yw hi i feirniadu trysor bach fel hwn. Mi wnes i ar adegau ffeindio fy hun ychydig yn anesmwyth wrth i'r cymeriadau syrthio i stereoteipiau braidd. Mae yna efallai hefyd adlais o agwedd Bondaidd tuag at wragedd — yn enwedig agweddau Llinos a Paul tuag at briodi a chynnal gyrf. Ar y llaw arall, adlewyrchiad o'r agweddau mewn cymdeithas a ffuglen yn gyffredinol yw'r rhain, ac nid yw'n dyletswydd ar awduron i drwsio patriarchaeth yn ei chyfanrwydd, er, efallai buasai'r portread wedi gallu bod ychydig yn fwy cymhleth ar adegau. Gellid hefyd cyhuddo'r nofel o fod braidd yn cliché a phastiche — ond i mi, dyna ran o'r apêl a digrifwch! Mae gen i restr Robert Webbaidd o anghysondebau pitw, ond nid ydynt yn andwyo mwynhad

y darllenwr am fwy nag eiliad neu ddwy.

Ar y cyfan, mae'r cymeriadau yn teimlo'n ddilys ac yn gredadwy, ac mi ffeindiais fy hun yn gwingo hefo nhw wrth iddynt wneud camgymeriadau a phalu tyllau i'w hunain. Mae perthynas y ddau brif gymeriad yn un anwadl, ac mae yna olygfeydd sy'n adleisio Basil a Sybil Fawly, a Penny a Leonard yn y *Big Bang Theory*; pwy a wŷr beth fydd ei hanes nhw ymhen hir a hwyr, ond mae eu cweryla yn dod a naws realaeth i'r stori. Mae yna hefyd deimlad o leoliad da trwy gydol y llyfr, yn enwedig pan mae'r bwrlwm yn symud draw i'r Almaen, gydag awyrgylch yn cael ei greu gan fanylion amrywiol. Mae'r stori yn afaelgar ac yn llawn hiwmor — cefais fy nhaflu yn syth i ganol y digwyddiadau, gan ddod i nabod y cymeriadau yn weddol dda...nes iddynt ddatgelu ei wir hunaniaeth a theyrngarwch...ac yna eu gwir, wir deyrngarwch!

Ond cyn i bethau symud gormod tuag at ddiweddglo *Scooby-dooaid*, mae yna shift ac mae'r cymeriadau yn dechrau dangos ochrau mwy soffistigedig ac allblyg, gan ddatgelu mewnwelediadau diddorol. Wrth iddynt ddechrau cau pen y mwdwl, mae'r manylion a chysylltiadau i beth sy'n digwydd tu hwnt i'r stori yn hynod o gyfoes, megis diwedd y gyfres *Homeland*, ac mae'r holl beth yn teimlo'n foddhaol o nyrdaid. Cefais fy hun yn sefyll wrth ddarllen, anghofio am fy mhaned, ac ymddygiadau eraill sy'n dangos fy mod wedi cwbl ymgolli mewn stori ddifyr. Medraf argymell y nofel yma yn llwyr.

Y Lolfa - £8.99

Cnoc-cnoc-cnoc Rhiannon Lloyd Williams

CYMERIADAU

GLESNI Prif gymeriad (22 oed)
MR MORTEM Y llais tu ôl y drws (dyn tua hanner cant)
ELAIN Chwaer y prif gymeriad (18 oed)
TRYSTAN Y dyn ar fai (27 oed)

GOLYGFA 1

INT. CORIDOR HIR GYDA DRWS COCH AR BEN DRAW'R CORIDOR

Gwelir GLESNI yn cerdded ar hyd coridor tywyll at ddrws coch sy'n edrych fel drws fflat rhywun. Yn araf, cnocia ar y drws. Yn ei llaw mae'n dal carden fusnes ddu gydag ysgrifen goch arni.

GLESNI Helo? ... Helooo? Fi 'ma i weld ... (Edrycha ar y garden fusnes yn ei llaw) ... i weld Mr Mortem ... ?

Cnocia GLESNI eto ar y drws coch.

GLESNI Helooo? Mr Mortem?
(Wrth ei hun) Falle bo' fi yn y lle rong te...

Try GLESNI i adael. Clywa sŵn tu ôl i'r drws. Stopia yn ei hunfan.

GLESNI Popeth yn iawn mewn 'na? ... Chisie fi ffonio rhywun?

Tynna GLESNI ei ffôn symudol allan o'i phoned ond sylwa nad oes signal gyda'r ffôn. Ochneidia GLESNI.

GLESNI Eniwe, Gles sy' 'ma. Glesni Evans. Ymm, chwâr fi, Elain, o'dd fod dod i alw ond fi 'di cymryd lle hi. Mae 'di bod mor brysur 'da phopeth sy'n mynd mla'n yn ddiweddar nes i gynnig helpu.

Tawelwch.

MR MORTEM (Clywir ei lais tu ôl i'r drws) Na, fi angen Elain. Elain sydd fod yma. Dim ti.

GLESNI Sori Mr Mortem, sai'n credu chi 'di deall fi, mond fi sy' 'ma. Mond fi chi mynd i ga'l heddi.

Tawelwch.

GLESNI (Wrth ei hun) Wel, sai'n gadel.

Tynna GLESNI ei bag oddi ar ei hysgwydd a'i roi ar y llawr. Sudda i'r llawr gyda'i chefn at y drws. Tawelwch.

GLESNI Pam 'y' chi moyn Elain eniwe? 'Sdim byd sbesial amdani, mae'n blydi poen yn y pen-ôl os chi'n holi fi.

MR MORTEM Dim fi ddewisodd hi. Er bod llawer yn meddwl hynny.

GLESNI So pw y sy' yn dewis? Cos ma'n fucking annheg taw hi sy' 'di ca'l ei dewis. Pam ddim y dickhead yna sy' wastad yn wolf whistleo merched lawr y lôn? Eh? Pam Elain a dim fe?

MR MORTEM Sori, pa gwestiwn wyt ti eisiau i fi ateb yn gyntaf?

GLESNI (Bwra'i phen yn ysgafn mewn rhwystredigaeth yn erbyn y drws) Pam Elain?

MR MORTEM Fel yna mae'n digwydd. Nhw sy'n dewis a fi sy'n derbyn, sori.

GLESNI

Gwelir GLESNI'n rhwbio'i phen - y rhan mae newydd fwrw - yn erbyn y drws.

Ti ddim yn sori though.

Tawelwch.

GLESNI

So 'y' chi am agor y drws 'ma te? Ne 'y' chi am adel fi fynd nôl? Achos os chi'm moyn fi, ma' 'da fi ddigon i 'neud.

GOLYGFA 2

EXT. STRYD FAWR

Gwelir GLESNI a merch arall, ELAIN, yn siarad yn gynhyrfus gyda'i gilydd wrth gerdded ar hyd stryd brysur.

ELAIN Ond os o'dd Mam ddim mor stressed a paranoid byse fi'n ca'l. Ma'n gwbo' 'na gyd fi moyn 'neud.

GLESNI Ydy, ond wedyn dyw pawb sy' moyn neud be' ti moyn heb dderbyn major surgery.

ELAIN Oh my God, ti'n swno gwmws fel

hi, ti'n gwbo hwnna?

GLESNI Cos ni sy'n iawn!

GOLYGFA 3

INT. CORIDOR

Clywir GLESNI yn anadlu'n drymach a gwelir gwaed ar ochr ei phen. Mae'i choes wedi'i phlygu'n gam.

GLESNI So be' sy'n digwydd nawr?

MR MORTEM Does dim hawl gyda fi i ddweud tra dy fod yn y fath gyflwr.

GLESNI Seriy's?! 'Sdim syndod bo' neb yn hoffi ti.

Pesycha GLESNI'n wael.

GLESNI O's 'na lefydd gwahanol te?

MR MORTEM Oes.

Cymra GLESNI anadl ddofn. Ffeindia GLESNI hi'n anoddach i anadlu. Gwelir gwaed yn dechrau dod o'i cheg.

GLESNI O's 'na restr? Ti'mo, fel un Siôn Corn?

MR MORTEM Oes.

GLESNI *(Braidd yn eglur)*
Well i fi fynd i'r lle da,
'da'r pobl dda te.

GOLYGFA 4

EXT. STRYD FAWR

Gwelir GLESNI ac ELAIN eto'n cerdded yr un stryd fawr, prysur.

ELAIN Nag 'y' ti wastad 'di moyn?

GLESNI Nagw.

ELAIN Boring!

GLESNI Sori, fi? Yn boring?

ELAIN Blydi hell, wyt! Ti'n gwrthod 'neud un o'r pethe gore ever!

GLESNI Ie, o'n i'n hollol boring yn cynnig hwn i ti!

Coda GLESNI ei thop i ddangos craith newydd ar ei bola ar ôl llawdriniaeth ar ei haren

ELAIN Ti byth mynd i sdopo sôn am hwnna 'y' ti?

Rolia GLESNI ei llygaid. Tawelwch. Mae'r ddwy'n nesáu at groesfan.

ELAIN Fi mynd i fynd.

GLESNI Ti'n gwbo' fydd mam yn *fumin'* os 'nei di!

ELAIN *(Gan dynnu GLESNI wrth iddi groesi'r stryd)*

So tyrd 'da fi, fydd e'n class!

Gwelir car yn nesáu'n gyflym at y ddwy. Tynna GLESNI ar ELAIN a'i symud allan o ffordd y car. O ganlyniad, mae'r car yn bwrw GLESNI. Gwelir GLESNI yn bwrw'i phen yn erbyn y llawr, yn yr union fan y mae'n bwrw'i phen yn erbyn y drws yn y coridor. Gwelir gwaed yn dechrau llifo o'i thrwyn a'i cheg.

GOLYGFA 5

INT. CORIDOR

Mae'r coridor bellach yn wag. Mae'r drws coch ar gau a'r unig olion o GLESNI yw'r pyllau bach iawn o waed ar y llawr. Gwelir TRYSTAN yn cerdded yn araf ar hyd y coridor at y drws coch. Cnocia'n sigledig ar y drws. Edrycha ar y garden fusnes yn ei law, yr union garden ag oedd gan GLESNI.

TRYSTAN Fi'n sori. Plis, 'sa'i moyn mynd, Mr Mortem. 'Nes i'm trio. 'Nes i'm gweld bo'r gole'n goch. 'Nes i'm gweld y merched. 'Nes i mond ateb y ffôn ... Fi'n sori! *(Dechreua grio)*

FADE OUT

DIWEDD

Jeno Davies, sy'n astudio BA mewn celf gain yn Llundain, sy'n gyfrifol am glawr Y Stamp y tro hwn.

Mae'r sgwigl/ chwyriad sy'n cael ei greu â llaw yn fotiff sy'n ailymddangos yn gyson yn fy ngwaith. Mae'n fy atgoffa o ymarfer llawysgrifen yn yr ysgol gynradd. Mae fy llawysgrifen yn erchyll. Dwi'n falch o allu gwneud defnydd o'r nonsens o ymarfer ysgrifennu testun o'r diwedd. Dwi hefyd yn hoffi meddwl amdano fel baner o ansicrwydd herfeiddiol.

Dwi'n meddwl yn aml am fy magwraeth mewn rhan wledig o Sir Gaerfyrddin. Dwi'n meddwl am y tirluniau a'r cymunedau o bobl oedd yn fy amgylchynu wrth i mi dyfu. Roedd ffermyr a hipis ac anghydfodau cynllunio yn gefnlen: mewnlifiad yn y 70au a oedd yn ymdebygu i'r hyn a oedd yn digwydd dros yr Iwerydd, y mudiad dychwelyd at y tir yng Nghaliffornia'r 70au. Ond bod ganddyn nhw fwy o ofod i symud yn America. Gwelwyd adfywiad celtaidd cyfoes, y tai crwn effaith isel, fel Hobbit Holes, toeau glaswellt, comiwnau ynysig heb drydan, y bywyd amgen.

Mae'r gwrthbwyntiau arddulliedig hyn i'n realiti diwydiannol yn tyfu yn nghorneli tawelach yr ynys hon. Dihangfa, fel chwarae ac ymladd; bydoedd ffantasi a pherfformiadau hen iawn.

Wele ambell fesur o fywyd eco, estheteg diwylliannol a ddefnyddir gan rai: cywasgydd garleg drud, gwellt, plethwaith, clai a chleddyfau pren yn taro ei gilydd. Addysg yn y cartref neu ysgol Gymraeg mewn pentref leol. Dwi'n defnyddio fy mhrofiadau o ardal Gymreig wledig er mwyn deall a chanfod llwybr trwy wrthdaro ecolegol a chymdeithasol ac agweddau croestoriadol. Dwi'n defnyddio math penodol o estheteg ecolegol er mwyn creu llwybr rhwng y gwahaniaethau diwylliannol yr wyf i'n gweld sy'n amlwg mewn canfyddiad cyfoes cyffredin o 'Wledigrwydd' a 'Natur' a'n heffaith ddynol ar y ddau beth hyn. Dwi wedi bod yn gwneud ffilmiau, delweddau a phethau sy'n codi cwestiynau yn hytrach na chyfres o feirniadaethau. Byddai beirniadaethau o'r fath yn gofyn



ADNABOD YR ARTIST Jeno Davies

am lefel o sicrwydd sy'n hollol afrealistig yn fy marn i.

Mae fy ymholiadau wedi eu gwreiddio yn y syniad a'r adnabyddiaeth o 'estheteg ecolegol'. Mae'r ffyrdd o fyw hanesyddol a chyfoes yr wyf yn eu harchwilio yn adlewyrchu dull rhamantus o arallu natur, sydd o ganlyniad yn creu estheteg foisol anhyblyg a chyfyng. Mae fy mhrofiadau o fyw yn ôl dulliau amgen, gwledig ac ecolegol wedi cymell ynof yr

angen am ddihangfa wledig a dealltwri-aeth feirniadol parhaus o hil, dosbarth ac agweddau croestoriadol o ecoleg - dyma gerrig sylfaen fy null personol o greu a fy natblygiad ymarferol.

***Mae Jeno yn un o artistiaid Dim Eto, pamffled o gelf wrthodedig dan olygyddiaeth Esyllt Lewis, gyda rhagair gan Dylan Huw, a gaiff ei ryddhau gan Gyhoeddiadau'r Stamp eleni.**

Castell Denllys, caer a ailgrëwyd ar sylfenni tai crwn y Celciaid. Caiff y ffantasi ei synnal gan amgueddfa awyr aored. Cosinïom fara syda'r actorion swneud, gan falu'r swenith a ddarparwyd syda charres sron ac yn y pen draw buytasom ein rholiau bara brown, a oedd yn glatsh ac yn llawn srawm. Amser cinio: (Pam nad ydym wedi sweld llun o'r) Menyn pysgtau Whole Earth, innocent smoothie a iogurt Yeo Valley. Bara rhyg, bara brown cartref sy'n cael ei daflu'n anseuol ac hwyaden yn y ffilm o 2002, *About A Boy*, lle mae Dush Grant yn screennu. Y math hwnnw o fara. Tai llaeth rhamantus, plethwaith a chlai a chaca.

Y STAMPWYR

YN NHREFN EU HYMDDANGOSIAD YN Y RHIFYN

Jeno Davies

gweler gyferbyn. (tud. 1, 36)

Llion Gethin

IG: @llion_gethin

Ffotograffydd ffilm ydi Llion Gethin, sydd yn arbenigo mewn tynnu lluniau o bobl a phethau dydd i ddydd. Yn wreiddiol o ardal Eryri, mae Llion bellach yn byw yng Nghaerdydd ac yn gweithio ar ddramâu teledu yn ogystal â phrosiectau ffotograffiaeth a chomisiynau.

Grug Muse (Gol.)

@Elan_Grug

Bardd, beiciwr, blogiwr. Myfyriwr ymchwil yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe. Cyhoeddwyd ei chyfrol gyntaf o gerddi, *Ar Ddisberod*, yn 2017. (tud. 3-4, 8-10)

Hana Issa

@hananiscreative

Mae Hanan yn fardd, yn awdur, ac yn ffan mawr o uncorniaid sydd yn byw yng Nghaerdydd (*Nid ffan o uncorniaid sy'n byw yng Nghaerdydd - Hanan sy'n byw yng Nghaerdydd, ac mae hi'n ffan o uncorniaid - Gol.*). Bydd ei phamffled gyntaf, *My body can house two hearts*, yn cael ei chyhoeddi yn Hydref 2019 gan Burning Eye Books. (tud. 6-7)

Matthew Tucker

@kerrithtucker

Mae Matthew yn fyfyrwr MA Ymchwil ym meysydd llenyddiaeth ac ysgrifennu creadigol yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe. Yn wreiddiol o Bontarddulais, ar y ffin rhwng siroedd Abertawe a Chaerfyrddin, y mae Matthew wedi ymsefydlu ym Mhorth Tywyn yng nghanol Sir Gaerfyrddin gyda'i gariad, Ebony, erbyn heddiw. (tud. 6-7, atodiad)

Lowri Côt

@lowri96

'Dwi'n 22 mlwydd oed ac yn dod o'r Gaerwen, Ynys Môn; ac wedi bod yn aelod o Theatr Fach Llangefni ers dros 15 mlynedd bellach yn action, addysgu, ac yn gwneud unrhyw joban sy'n mynd gefn llwyfan! Roeddwn yn aelod o Theatr Ieuentid Môn ac Amrant, ac yn rhan o gynhyrchiad cyntaf Cymdeithas John Gwilym Jones eleni. Rwyf hefyd yn isgyfarwyddo sioe gerdd Theatr yr Urdd, *Aberhenfelen*, eleni. (tud. 12-13)

Dr. Iona Gwilym

'Dwi'n gweithio fel deintydd ers bron i dair blynedd ac yn angerddol am ddarparu triniaeth ddeintyddol ataliol yn Gymraeg. Wedi gweithio yng Ngogledd-orllewin Cymru, a bellach yn gweithio yn Ne-ddwyrain Cymru.' (tud. 14-16)

Seren Morgan Jones

IG: @serenmorganjones

Ganwyd Seren Morgan Jones ym 1985 yn Aberystwyth. Graddiodd o Goleg Celf Central Saint Martin's, Llundain yn 2009 gyda BA mewn Celf Gain. Cyn hynny bu'n astudio cwrs sylfaen yng ngholeg celf gain Byam Shaw. (tud. 17)

Morgan Rhys Powell

@gainstthewall

Mae Morgan Rhys Powell o Aberfan yn wreiddiol ond mae bellach yn Gymro all-tud. Mae o'n Farcsydd sydd â diddordeb yn y perthynas rhwng y creadigol a'r chwyldroadol. (tud. 18-19)

Bedwyr Williams

@BedwyrWilliams

'Mi ydw i'n gweithio ac yn byw yng Ngogledd Cymru ac yn darlithio yn yr ysgol gelf yn Lerpwl. Mi ydw i'n artist amlgyfrwng sydd yn creu gwaith gyda elfen gref o naratif. Mae'r gwaith yn ddychanol ac ymysg fy nhargedau haeddiannol mae curadwyr, artistiaid eraill, penseiri,

cerddorion arbrofol a phobl sy'n gwisgo sbectols designer chunky a/neu esgidiau flambuoyant.' (tud. 24-25)

Judith Musker Turner

@MuskerTurner

Bardd ac arlunydd tecstilau o Ffair Rhos. Myfyriwr MA Astudiaethau Cymreig a Cheltaidd ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'n gweithio i Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru, ac yn aelod newydd o Gywion Cranogwen. (tud. 22-23)

Lleucu Non

IG: @lleucunon

Myfyriwr celf o Ddyffryn Nantlle ydi Lleucu Non. Yn ddiweddar mae hi wedi cydweithio hefo bandiau Cymraeg megis Casi & The Blind Harpist, KIM HON, a Blodau Papur. (tud. 25)

Alun Saunders

@alunsaunders

Wedi'i eni a'i fagu yng Nghastell Nedd, bu Alun Saunders yn aelod o Theatr Ieuentid Cymru cyn hyfforddi fel actor yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Mae wedi gweithio fel dramodydd ac awdur ar gyfer y teledu ers dros ddeng mlynedd, ac erbyn hyn mae wedi sefydlu cwmni theatr Neontopia gyda'r cyfarwyddwr Mared Swain. Mae'n treulio amser anghymesur ar Twitter. (tud. 27-28)

Mared Roberts

@maredroberts

Mae Mared, sy'n wreiddiol o Bentre'r Bryn, yn gyfeithydd gyda'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghaerdydd bellach. Er mai rhyddiaith y mae wedi bod yn ei hysgrifennu yn bennaf, mae ganddi ddiddordeb hefyd mewn sgrriptio, a daeth yn fuddugol yng nghystadlwaueth y Fedal Ddrama yn Eisteddfod yr Urdd eleni. (tud. 33)

Elgan Rhys
@ElganRhys

Mae Elgan yn wneuthurwr theatr ac yn gweithio fel awdur, cyfarwyddwr a pherfformiwr. Mae hefyd yn gydsedydlydd a chyd-gyfarwyddwr artistig Cwmni Pluen, ac yn Artist Cyswllt i Gwmni Frân Wen. Un o'i lwyddiannau diweddar yw *Woof*, cynhyrchiad gan Theatr y Sherman. (tud. 8-9)

Rhiannon Williams
@rhiannonydwi

Ers graddio o Brifysgol Bangor mae Rhiannon bellach yn gweithio fel ymchwilydd i gwmni teledu Boom Cymru. Y llynedd roedd hi'n rhan o Gynllun Mentora Llenyddiaeth Cymru a darlledwyd ei ffilm fer, 'Paid Troi Nôl', ar S4C trwy'r cynllun *It's My Shout* fis Tachwedd 2018. Ei chyhoeddiad diweddaraf yw ei stori yn y gyfrol *Byw yn fy Nghroen* (Y Lolfa). (tud. 34-35)

Gareth Evans Jones
@GEvansJones

Mae Gareth yn byw yn Nhraeth Bychan ger Marian-glas, Ynys Môn, ac mae'n ddarlithydd Athroniaeth a Chrefydd yn Ysgol Hanes, Athroniaeth, a Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor. Yn ddiweddar, cyhoeddodd ei gyfrol gyntaf, sef nofel o'r enw *Eira Llwyd* (Gwasg y Bwthyn). (adolygydd)

Manon Awst
@manonawst

Yn wreiddiol o Fôn, astudiodd Manon Awst Bensaerniaeth ym Mhrifysgol Caergrawnt cyn symud i ddinas Berlin i ddatblygu ei gyrfa fel artist. Bu hi'n byw yno am bron i ddeng mlynedd cyn symud yn ôl i Gymru yn barhaol a sefydlu ei stiwdio yng Nghaernarfon. Yn ogystal â datblygu prosiectau celf amrywiol, mae hi'n mwynhau barddoni ac yn perfformio yn rheolaidd efo'r grŵp barddol Cywion Cranogwen. (adolygydd)

Elis Dafydd
@elisdafydd

Mae Elis Dafydd yn fyfyrwr PhD yn Ysgol y Gymraeg Bangor yn ymchwilio i waith John Rowlands. Cyhoeddodd gyfrol o gerddi, *Chwilio am dân*, yn 2016, a chydolygodd gyfrol o erthyglau ar ganu gwleidyddol, *Rhywbeth i'w Ddweud*, gyda Marged Tudur yn 2017. (adolygydd)

Sara Louise Wheeler
@SerenSiwenna

Daw Sara yn wreiddiol o ardal Wrecsam. Astudiodd ei gradd a'i doethuriaeth yn Lerpwl ac mae bellach wedi ymgartrefu ym mhenryn Cilgwri gyda'i gŵr a'u crwb anwes, Kahless. Mae'n ddarlithydd mewn Seicoleg ym Mhrifysgol Glyndŵr, Wrecsam. (adolygydd)

Iestyn Tyne (Gol.)
@iestyn_tyne

Llenor, cerddor ac artist o Ben Llŷn yn wreiddiol, ond sydd bellach yn byw yng Nghaernarfon ar ôl cyfnod yn Aberystwyth. Mae erbyn hyn yn gweithio fel cyfieithydd rhan amser. Cyhoeddodd bamffled o gerddi, *Cywilydd*, eleni.

Llŷr Titus (Gol.)

Awdur a dramodydd, myfyrwr PhD yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor ac un o sylfaenwyr Cwmi'r Tebot, cwmni theatr cymunedol yn Llŷn.

Esyllt Lewis (Gol.)
@EsylltLewis

Graddiodd Esyllt o Brifysgol Caerdydd y llynedd wedi iddi astudio gradd mewn Cymraeg ac Athroniaeth. Mae'r cysylltiadau y gellir eu gwneud rhwng y ddau bwnc o ddiddordeb mawr iddi, ac fe hoffai weld rhagor o drafodaeth am Athroniaeth yn Gymraeg. Mae Esyllt ar hyn o bryd draw yn Fenis yn gweithio ym mhafiliwn Cymru yn y Biennale Celf Rhyngwladol. I weld ei darluniau o Fenis, dilynwch *@darlun_y_dydd* ar Instagram.

cynnyrch creadigol newydd a gwreiddiol yn wythnosol ar

ystamp.cymru

RHYDDIAITH / BARDDONIAETH / CELF / YSGRIFAU / BARN
ADOLYGIADAU / CYFWELIADAU / SGRIPTIAU / PROFIADAU

wrthi'n cicio a stampio ers 2016

Beth am hysbysebu yn rhifyn
nesaf *Y Stamp*?

golygyddion.ystamp@gmail.com



Adran y Gymraeg
ac Astudiaethau Celtaidd
Ein Hadran ni - dy Adran di



**Eisteddfod
IEVENCTID
Marian-glas**

Nos Wener 11eg o Hydref 2019

Cystadlaethau niferus gan gynnwys *Tlws yr Ifanc*
(gwerth £50) a'r *Gadair* (gwerth £75).

@eisteddfodmari1
eisteddfodmarianglas@gmail.com

PENTRE DU
Pentre Gwyn

MYRDDIN AP DAFYDD

Pentre Du, Pentre Gwyn
Myrddin ap Dafydd
Gwasg Carreg Gwalch / £9.50

#YCylchSialc @TheatrGenCymru theatr.cymru

Theatr Genedlaethol Cymru

Ar daith /
On tour:
02 - 22.10.19

**Y CYLCH
SIALC**

Mewn cydweithrediad â
Theatr Sŵi Ede
in association with
Garnarthshire Theatres

**ENGIL
Y STAMP
TY NEWYDD
6-8 MEDI
2019**
Nod: 2019
CREU
CYLCHGRAWN
MEWN
DEUDDYDD

GWLEDD Y 'STEDDFOD 2019 05-08-19 | 09-08-19
Neuadd Gymunedol Llanrwst,
Watling Street.

Actorion:
Iwan Charles
Llyr Edwards www.theatrbaracaws.com

COSTA BYW

Mewn cydweithrediad â
Cwmni Tebot

Rifiw hwyliog sy'n dychmygu sut le fydd Gwynedd
mewn blynyddoedd i ddod.
Cewch ambell gip ar broblemau cyfoes - mewnfudo,
diffyg swyddi, cost tai, gwleidyddion, newid
hinsawdd, crîm egs yn mynd yn llai bob gafael, hyn
oll a mwy.
Ymunwch â ni i weld be'n union ydi a be fydd costa
byw 'di mynd!

GAIR O GARIAD

Gwahoddiad i ddigwyddiad mwyaf
rhamantus yr wythnos yng nghwmni:
Rhodri Siôn a Llewelyn Steffan

Dewch i gynnig llwncdestun i gariadon o bob math...
cariadon heg a newydd.
Cariad rhwng dau, rhwng dwy, rhwng plant a'u rhieni,
rhwng ffrindiau, rhwng perchnogion a'u hanifeiliaid...

| | |
|---|--|
| Nos Fawrth 8:00 https://www.wegottickets.com/event473134 | P'nawn Llun 2:00 http://www.wegottickets.com/event/474305 |
| Nos Fercher 8:00 https://www.wegottickets.com/event473135 | Nos Lun 8:00 http://www.wegottickets.com/event/474308 |
| P'nawn Iau 2:00 https://www.wegottickets.com/event473137 | P'nawn Mawrth 2:00 http://www.wegottickets.com/event/474310 |
| Nos Iau 8:00 https://www.wegottickets.com/event473138 | P'nawn Mercher 2:00 http://www.wegottickets.com/event/474313 |
| Nos Wener 8:00 https://www.wegottickets.com/event473140 | P'nawn Gwener 2:00 http://www.wegottickets.com/event/474315 |



Cyhoeddiadau'r Stamp 2019
Celf y clawr gan Jeno Davies
£4.00